

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r sawl a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn; heb eu cydweithrediad ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosib.

Hoffem ddiolch yn benodol i'r Timau Troseddau Ieuencid a gymerodd ran, y timau rheoli, yr asiantaethau partner a'r staff yn yr ardaloedd a gymerodd ran yn yr arolygiad sef Blackburn gyda Darwen, Brighton, Lambeth, Leeds, Sunderland ac Abertawe. Fe roddodd eu gonestrwydd flas go iawn i ni o'r gwirionedd o weithio gyda'r merched.

Rydym yn ddiolchgar i'r staff yng Nghanolfannau Hyfforddi Diogel Hassockfield a Medway, ac yng Nghartrefi Diogel i Blant Redbank, Swanwick Lodge a Vinney Green, a hwylusodd ein cyfweiliadau gyda'r merched yn y ddalfa. Hoffem ddiolch i Dim Troseddau Ifanc Bryste am wirfoddoli i gynnal cyfnod peilot yr arolygiad, a roddodd gyfle i ni brofi ein methodoleg.

Yn bennaf oll, hoffem ddiolch i'r merched y bu i ni gyfarfod â hwy, yn y gymuned ac yn y ddalfa. Trwy rannu eu profiadau a'u barn maen nhw wedi ein helpu i weld effaith a phwysigrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan staff troseddau ifanc. Sylweddolwn gymaint o ymrwymiad a haelioni a ddangoswyd ganddynt, yn enwedig o ystyried nifer y bobl maen nhw'n cwrdd â hwy, i ailddweud eu stori, a'r anawsterau mae llawer ohonynt wedi eu hwynebu yn eu bywydau sydd wedi gwneud hi'n anodd ymddiried yn yr oedolion o'u hamgylch.

<b>Prif Arolygydd</b>	Yvonne McGuckian, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
<b>Dirprwy Brif Arolygydd</b>	Helen Davies, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
<b>Tim Arolygu</b>	Katy Young, <i>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru</i> Fergus Currie, <i>Y Comisiwn Ansawdd Gofal</i> Michelle Fordham, <i>Y Comisiwn Ansawdd Gofal</i> Lee McWilliam, <i>Y Comisiwn Ansawdd Gofal</i> Rob Bowles, <i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi</i> Sam Galisteo, <i>Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi</i> Helen Ranns, <i>Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi</i> Alissa Redmond, <i>Arolygiaeth</i>

*Carchardai Ei Mawrhydi*

Jenny Bright, *Gwasanaeth  
Troseddau Ieuencid Leeds*

Karen McKeown, *Ofsted*

---

**Gwasanaethau  
Cefnogi Arolygiaeth  
Prawf Ei Mawrhydi**

Adam Harvey, *Swyddog  
Gwasanaethau Cefnogi*

Stephen Hunt, *Swyddog  
Gwasanaethau Cefnogi*

Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil  
Cynorthwyol*

Alex Pentecost, *Rheolwr  
Cyfathrebu*

Jane Regan, *Swyddog  
Gwasanaethau Cefnogi*

---

**Prif Arolygydd  
Cynorthwyol**

Andy Smith, *Arolygiaeth Prawf Ei  
Mawrhydi*

---

## Rhagair –

Mae'n swnio'n amlwg, ond mae angen ei ddweud. Mae llai o ferched yn troseddu na bechgyn. Yng Nghymru a Lloegr, maen nhw'n cyfri am ddim ond un achos ym mhob pump yn llwyth achosion gwasanaethau troseddau ifanc a'r boblogaeth blant yn y ddalfa. Mae merched yn tueddu i gyflawni troseddau llai difrifol na bechgyn ac maen nhw fel arfer yn peri risg isel o niwed i bobl eraill. Mae eu troseddu yn aml yn ymateb i broblemau emosiynol ac anawsterau gyda pherthnasau, gyda rhieni, partneriaid a ffrindiau. Oherwydd eu nifer cymharol isel, mae anghenion penodol merched weithiau'n cael eu hesgeuluso mewn system cyfiawnder troseddol ifanc sydd wedi'i gynllunio yn bennaf i ymdrin â throseddu gan fechgyn.

Nod yr arolygiad oedd asesu effeithiolrwydd gwasanaethau troseddau ieuencid a sefydliadau diogel, ar y cyd â sefydliadau eraill, wrth helpu rhwystro merched rhag troseddu ac wrth leihau'r risg o niwed mae merched yn peri i bobl eraill. Yn benodol roeddem yn awyddus i ddarganfod a oedd y gwasanaethau hyn yn helpu i wneud merched yn llai agored i niwed. Roedd yr arolygiad hefyd yn archwilio a oedd camddefnyddio alcohol yn ffactor yn nhroseddau merched.

Yr hyn a ddarganfuom oedd bod alcohol yn ffactor llai pwysig nag oeddem wedi meddwl. Efallai'n annisgwyl, nid oedd y camddefnydd o alcohol yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at ymddygiad tramgwyddus mwyafrif y merched yn sampl ein harolygiad, er bod rhai merched yn yfed gormod fel dull o ymdopi gyda'r sefyllfaoedd anodd roeddent ynddynt. Ond yr hyn roeddem yn poeni'n fawr iawn amdano, ac yn sgil datgeliadau diweddar ynglŷn â graddau camfanteisio'n rhywiol ar blant, oedd bod nifer o'r merched y bu i ni gyfarfod â hwy yn ystod yr arolygiad hwn yn agored i gamfanteisio. Roedd nifer wedi cael profiad o sefyllfaoedd ac amgylchiadau roeddent yn cael trafferth i'w deall ac i ddygymod â hwy. Plant yw'r unigolion hyn ac, yn enwedig yn y cyd-destun hwn, maen nhw'n agored i fathau penodol o niwed. Mae ganddynt yr hawl i'r hawliau a'r amddiffyniad y dylai plentyn eu derbyn. Yn anffodus, mewn gormod o achosion roedd yr amddiffyniad hwn yn absennol, ac roedd staff yn aml yn anghymwys i ymdrin â'r broblem wirioneddol neu bosib o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu'n anymwybodol ohoni. Roedd cydadwaith cymhleth rhwng troseddu a chamfanteisio rhywiol. Roedd rhai merched yn fwy agored i gamfanteisio oherwydd eu bod wedi troseddu; roedd eu hymddygiad tramgwyddus yn eu rhoi mewn sefyllfaoedd ble roeddent yn fwy tebygol o ddiodef camfanteisio'n rhywiol. Roedd eraill yn diodef camfanteisio'n rhywiol, a oedd yn aml yn gweithredu fel sbardun am ymddygiad tramgwyddus.

Felly, sut ymatebodd y staff? Mae mwyafrif gweithwyr a staff Timau Troseddau Ieuencid mewn sefydliadau gwarchodol diogel yn cydnabod bod, er mwyn gweithio'n effeithiol gyda merched, dulliau a ddefnyddir i weithio gyda bechgyn yn anaddas, a bod merched, yn fwy na bechgyn, angen datblygu perthynas ddiogel ac o ymddiriedaeth gyda staff. Nid oedd rhyw yn gwneud gwahaniaeth. Roedd gan ferched anghenion penodol a oedd angen ymateb teilwredig.

Fe ddarganfuom fod gweithio gyda merched yn aml yn gymhleth a ble roedd ymagweddau a oedd yn sensitif i rywiau wedi cael eu datblygu, roedd hyn oherwydd unigolion a oedd yn ymrwymedig i wella bywydau a'r canlyniadau i ferched ac nid trwy ymgyrch dan arweiniad cenedlaethol neu leol i adnabod a diwallu eu hanghenion penodol. Fe welsom hefyd batrwm o aildroseddu gyda merched a oedd yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol, gyda nifer hefyd yn agored iawn i niwed.

Yn gyffredinol, roedd staff mewn Timau Troseddau Ieuencid a sefydliadau gwarchodol diogel yn gweithio'n galed i geisio gwneud gwahaniaeth i fywydau'r merched roeddent yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, os yw bywydau'r merched yn y system cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd am newid, ac os nad ydynt am fynd ymlaen i droseddu yn oedolion ac i'w diogelu rhag

camfanteisio, mae angen cydweithio effeithiol rhwng asiantaethau. Yn benodol, dylent werthuso'n fwy trylwyr beth sy'n gweithio i droi merched i ffwrdd o droseddu a a'u gwneud yn llai agored i niwed. Yn yr adroddiad hwn rydym yn gwneud nifer o argymhellion gyda'r bwriad o ganolbwyntio'r sylw ar y pwysigrwydd hanfodol o wella'r canlyniadau hyn.

## **Rhagfyr 2014**

Paul McDowell,

Prif Arolygydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Yr Athro Steve Field CBE FRCP FFPH FRCGP,

Prif Arolygwr Practis Cyffredinol

Nick Hardwick CBE, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Prif Arolygydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Imelda Richardson,

Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Ei Mawrhydi

Syr Michael Wilshaw,

Prif Arolygydd Arolygiaeth Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Mawrhydi

Tom Winsor,

Prif Arolygydd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

## Cynnwys

Tudalen

<b>Diolchiadau</b>	<b>X</b>
<b>Rhagair</b>	<b>X</b>
<b>Crynodeb o'r canfyddiadau</b>	<b>X</b>
<b>Canfyddiadau penodol</b>	<b>X</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>X</b>
<b>1. Cefndir a methodoleg yr arolygiad</b>	<b>X</b>
<b>2. Ymagweddau at weithio gyda merched: trosolwg</b>	<b>X</b>
<b>3. Diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu</b>	<b>X</b>
<b>4. Cadw merched yn ddiogel</b>	<b>X</b>
<b>5. Profiadau'r merched yn y ddalfa</b>	<b>X</b>
<b>6. A wnaeth y gwaith gyda'r merched wahaniaeth?</b>	<b>X</b>
<b>Atodiad 1 Rhestr termau</b>	<b>X</b>
<b>Atodiad 2 Rôl yr arolygiaethau a chodau ymarfer</b>	<b>X</b>
<b>Atodiad 3 Cyfeiriadau</b>	<b>X</b>

# Crynodeb o'r canfyddiadau

## Cyd-destun

Yng Nghymru a Lloegr, mae merched yn cyfri am tua 20% o lwyth achosion gwasanaethau troseddau ieuenctid. Rydym yn gwybod o arolygiadau blaenorol bod merched yn tueddu i gyflawni troseddau llai difrifol na bechgyn, ac mae eu troseddu yn aml yn ymateb i les emosiynol a materion yn ymwneud â pherthnasau gyda rhieni, partneriaid a ffrindiau. Mae merched yn tueddu i gael lefelau uchel o anghenion lles ac yn agored i niwed oherwydd gweithrediadau pobl eraill. Oherwydd eu nifer cymharol isel mae anghenion merched weithiau yn gallu cael eu hesgeuluso o fewn system cyfiawnder troseddol ifanc sydd wedi'i gynllunio yn bennaf i ymdrin â throseddau gan fechgyn. Mae pryder sylweddol hefyd wedi bod yn ddiweddar am nifer yr achosion o gamfanteisio rhywiol ar blant mewn nifer o ardaloedd ble mae merched agored i niwed wedi bod yn ddiodefwr.

## Yr arolygiad

Cytunwyd ar yr arolygiad hwn gan Grŵp y Prif Arolygwyr ar Gyfiawnder Troseddol ac roedd yn llunio rhan o'r llif gwaith a nodwyd yng *Nghynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2012-2014*. Nod yr arolygiad oedd asesu effeithiolrwydd gwasanaethau troseddau ieuenctid, ar y cyd â sefydliadau eraill, wrth leihau'r tebygolrwydd o ferched yn aildroseddu ac wrth leihau'r risg o niwed mae merched yn peri i bobl eraill a'u gwneud yn llai agored i niwed (gan ganolbwyntio'n benodol ar gamddefnyddio alcohol).

Ymwelwch â chwe Thim Troseddau Ieuenctid (YOTs) i asesu ansawdd y gwaith mewn sampl o 48 achos. Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda rheolwyr a staff gweithredol allweddol y YOTs ac asiantaethau eraill. Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda 20 merch a oedd yn cyflawni dedfrydau yn y ddalfa ynghyd â staff y ddalfa.

## Canfyddiadau cyffredinol

Gellir categorioeddio gwaith gorau'r YOTs gan ymagwedd at asesu ac ymyrraeth a oedd yn cydnabod bod gan ferched anghenion gwahanol i fechgyn yn aml. Roedd yr asesiad a'r rheolaeth o'r risg o niwed a berir gan ferched i bobl eraill yn gyffredinol yn gadarn ac roedd rhai esiamplau addawol o ymyriadau wedi'u cynllunio ar gyfer merched.

Yn anffodus, nid oedd yr ymagwedd hon yn cael ei roi ar waith yn gyson. Mewn rhai achosion, nid oedd asesiadau ac ymyriadau yn ystyried gwahaniaethau rhyw. Roedd nifer o'r merched yn agored i niwed ac yn her i'r sawl a oedd yn gweithio gyda hwy. Gwnaethpwyd ymdrechion i leihau'r bregusrwydd hwn, ond mewn gormod o achosion roedd diddordeb gormodol yn y broses yn hytrach nag mewn gweithredu'n effeithiol.

Roedd camfanteisio rhywiol ar blant yn risg difrifol i ferched ym mhob un o'r ardaloedd y bu i ni ymweld â hwy. Fe welsom waith ataliol effeithiol i helpu merched ddeall y risg yn eu bywydau a chynyddu'u gwydnwch. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i ferched a oedd yn ddiodefwr camfanteisio rhywiol yn amrywiol iawn yn eu hansawdd ac effeithiolrwydd ac nid oedd y cysylltiadau rhwng eu hymddygiad tramgwyddus a'r risg difrifol o niwed roeddent yn eu hwynebu bob tro'n cael eu hystyried yn gywir. Er bod gan bob ardal dulliau amlasiantaethol o adnabod merched mewn peryg o gamfanteisio rhywiol, roedd y rhain yn aml yn canolbwyntio mwy ar rannu gwybodaeth yn hytrach nag ar dargedu gwaith i leihau'r risgiau iddynt.

Roedd merched yn y ddalfa yn siarad yn gadarnhaol am staff a'u gweithwyr allweddol. Roedd y perthnasau hyn wedi'u helpu i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r hyn roedd angen iddynt wneud er mwyn ailsefydlu yn llwyddiannus ar ôl cael eu rhyddhau. Fodd bynnag, roedd gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus yn y ddalfa yn aml ddim yn cael ei adnabod fel gwaith o'r fath gan ferched, a gallai gweithwyr YOT wneud mwy i gynnal neu adeiladu perthnasau gyda

merched yn y ddalfa i'w paratoi i gael eu rhyddhau.

Roedd angen gwneud mwy o waith i fonitro data perfformiad am ferched gan reolwyr YOT er mwyn targedu ymyriadau yn fwy effeithiol a gwella canlyniadau.

## **Canfyddiadau penodol**

### **Ymagweddau at weithio gyda merched: trosolwg**

Roedd pob YOT, i ryw raddau, wedi ystyried anghenion merched wrth lunio gwasanaethau. Er enghraifft, mewn un YOT, roedd ymagwedd bartneriaeth gyda gwasanaethau plant wedi'i chynllunio i ganolbwyntio ar anghenion merched, gan gynnwys yr angen am amddiffyniad; roedd un tîm yng Nghymru wedi meddwl yn ofalus am ymateb i sefyllfa unigryw un ferch, ac roedd un gwasanaeth wedi mabwysiadu ymagwedd 'seiliedig-ar-hawliau' a oedd yn pwysleisio'r pwysigrwydd o wrando ar beth roedd merched yn dweud am eu sefyllfaoedd ac ymateb mewn modd adeiladol.

Tra roedd hi'n galonogol bod sylw wedi cael ei roi i ddatblygu'r ymagweddau hyn gan reolwyr, ychydig iawn o werthusiad ar effeithiolrwydd yr ymarfer oedd wedi bod yn y YOTs y bu i ni ymweld â hwy.

### **Diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu**

Roedd asesiadau o'r risg o niwed roedd merched yn ei beri i eraill yn fanwl gywir ac roedd y risg o niwed i eraill yn cael ei reoli'n effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau yn dadansoddi pam roedd merch wedi troseddu ac a oedd hi'n debygol o droseddu eto bob tro'n ystyried materion yn ymwneud â rhyw, megis problemau iechyd ac effaith teulu, ffrindiau neu bartneriaid. Roedd hyn yn ddiffyg mawr.

Nid oedd alcohol yn ffactor arwyddocaol yn nhroseddau mwyafrif y merched y bu i ni gwrdd â hwy yn yr arolygiad hwn. Roedd rhai merched, fodd bynnag, yn defnyddio alcohol fel modd o ymdopi gyda phroblemau emosiynol.

Roedd ystod ac argaeledd yr ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus yn amrywio, gyda rhai rhaglenni da yn benodol ar gyfer un rhyw mewn rhai YOTs. Mewn rhai ardaloedd, fodd bynnag, roedd merched yn ymgymryd ag ymyriadau wedi'u cynllunio ar gyfer bechgyn nad oedd wedi cael eu haddasu'n iawn i'w gwneud yn addas ar gyfer merched.

Roedd rhai gwasanaethau effeithiol yn bodoli i helpu atal merched rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

### **Cadw merched yn ddiogel**

Roedd nifer o'r merched a arolygwyd gan y YOTs yn agored iawn i niwed ac roedd ganddynt nifer uchel o anghenion lles. Roedd hyn yn creu anawsterau i'r asiantaethau hynny a oedd yn ceisio'u cadw'n ddiogel ac, mewn rhai achosion, roedd gormodedd o weithwyr mewn cysylltiad â hwy. Nid oedd eu gwaith yn cael ei gydlynu'n ddigonol er mwyn sicrhau bod merched wedi'i hamddiffyn yn iawn.

Roedd cydadwaith cymhleth rhwng bregusrwydd a throseddu. I rai merched, roedd eu troseddu yn eu gwneud yn agored i niwed (i ddefnyddio cyffuriau, er enghraifft), tra i eraill roedd eu bregusrwydd (er enghraifft, yn sgil cael unman i fyw) wedi cyfrannu at eu troseddu. Roedd diffyg manylion digonol ym mron hanner yr asesiadau o fregusrwydd, gyda nifer yn methu ag adnabod realiti bywyd y merched o ddydd i ddydd, gan gynnwys effaith perthnasau, alcohol a materion emosiynol ac iechyd meddwl. Roedd hyn yn arwain at gynlluniau aneglur nad oedd yn

canolbwyntio digon ar ganlyniadau nac wedi eu seilio'n ddigonol ar angen canfyddiedig.

Ym mhob YOT, roedd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn risg mawr i'r merched yn yr ardal. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â'u hymglymiad mewn gangiau neu gyda dynion hŷn. Fe welsom esiamplau o waith ataliol da i'w helpu i gynyddu gwydnwch merched at risgiau camfanteisio rhywiol. Yn y YOTs gorau, roedd y risgiau o gamfanteisio'n cael eu hadnabod, gyda gwaith sensitif yn cael ei wneud i leihau'r risgiau, a chefnogaeth amlasiantaethol yn cael ei ddefnyddio i amddiffyn y merched a dal y troseddwy. Fodd bynnag, roedd gwaith gweithwyr proffesiynol yn aml heb fod wedi'u cydlynu'n dda. Fe welsom esiamplau o asiantaethau yn canolbwyntio'n ormodol ar ymddygiad tramgwyddus y merched yn hytrach na'r rhesymau am eu hymddygiad. Weithiau, roedd merched wedi cael eu symud i fyw mewn rhannau eraill o'r wlad yn hytrach na gwneud ymdrechion gweithredol i ddal y troseddwy.

## **Profiadau'r merched yn y ddalfa**

Fe gyfwelom â 20 merch yn y ddalfa i gael eu barn ynghylch sut roeddent wedi cael eu trin ac fe siaradom â staff y ddalfa.

Nid oedd perthnasau merched gyda staff yn y YOT 'cartref'<sup>1</sup> bob tro wedi'u cynnal yn dda. Roedd yn arbennig o bryderus, gyda'r merched hynny oedd wedi 'Derbyn Gofal' gan yr awdurdod lleol cyn eu dedfryd, bod cysylltiadau gyda'u gweithwyr cymdeithasol yn aml yn wan. Mewn achosion o'r fath, roedd awdurdodau lleol yn methu â bodloni'u hanghenion cyfreithiol.<sup>2</sup>

Roedd mwyafrif y merched y bu i ni gyfweld â hwy yn teimlo'n ddiogel a, ble roedd pryderon ynghylch diogelwch wedi bod, roeddent yn teimlo bod eu pryderon wedi cael sylw a bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd. Roedd gwaith i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol yn ardal a oedd yn datblygu.

Roedd nifer o'r merched yn dod o gefndiroedd cythryblus ac anodd ac yn meddu ar anghenion cymhleth. Roedd staff y ddalfa wedi derbyn hyfforddiant i weithio gyda merched ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'r pwysigrwydd o adeiladu perthynas yn seiliedig ar ymddiriedaeth gyda merched. Soniodd y merched am berthnasau positif gyda staff ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod eu gweithwyr allweddol wedi'u cynorthwyo. Er bod cynlluniau hyfforddiant gan ferched a bod gwaith ymddygiad tramgwyddus yn digwydd, roedd gan nifer o ferched ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth wael o hyn.

Roedd rhai merched wedi ailymrwymo ag addysg tra roeddent yn gwneud eu dedfrydau. Roedd bechgyn a merched yn mynychu mwyafrif y gweithgareddau er roedd rhai esiamplau o ddarparu gweithgareddau ar gyfer un rhyw yn benodol.

## **A wnaeth y gwaith gyda merched wahaniaeth?**

Ychydig o ddefnydd oedd yno o ddata a gwybodaeth mewn YOTs i olrhain canlyniadau i ferched. O ganlyniad, nid oedd rheolwyr ac ymarferwyr yn gallu dangos a oeddent yn darparu gwasanaeth effeithiol i'r grŵp hwn.

Roedd merched yn cael gwell canlyniadau pan roedd eu hanghenion wedi cael eu hasesu'n gywir a'u bod yn derbyn y gefnogaeth gywir wedi'i haddasu at anghenion penodol merched.

Roedd amllder a difrifoldeb y troseddu wedi lleihau ym mwyafrif yr achosion y bu i ni eu hasesu (er nid oedd merched a oedd yn Derbyn Gofal yn gwneud cystal â merched eraill). Roedd rhai ffactorau cysylltiedig â throeddu wedi cael eu hymdrin yn llwyddiannus, ac roedd cydymffurfiaeth gyda goruchwyliaeth yn dda. Fodd bynnag, nid oedd yn syndod, o ystyried hanes

---

<sup>1</sup> Yn cyfeirio at y YOT ble mae'r plentyn neu berson ifanc fel arfer yn byw neu, yn achos Plentyn sy'n Derbyn Gofal, YOT yr awdurdod gosod.

<sup>2</sup> *Deddf Plant 1989 Canllawiau a Rheoliadau: Cyfrifoldebau awdurdod lleol tuag at blant yn y ddalfa a oedd wedi derbyn gofal yn flaenorol*, yr Adran Addysg, 2010 [www.gov.uk/government/publications/children-act-1989-former-looked-after-children-in-custody](http://www.gov.uk/government/publications/children-act-1989-former-looked-after-children-in-custody)



cymhleth nifer o'r merched, bod rhai o'r problemau sylfaenol yn parhau. Nid oeddem yn gallu bod yn hyderus ym mhob achos bod y merched wedi cael eu hamddiffyn, o ystyried y diffygion a ddarganfuom yn y gwaith i asesu a rheoli bregusrwydd. Yn aml roedd diffyg cefnogaeth i ferched unwaith y deuai eu cyswllt gyda'r YOT i ben, hyd yn oed pan roedd eu hanghenion lles yn parhau i fodoli.

## **Casgliad**

Mae'r rhesymau sy'n arwain at droseddu gan ferched yn wahanol i rai bechgyn ac mae eu hymatebion, pan maen nhw'n cael eu goruchwylio gan YOTs, yn gallu bod yn wahanol iawn. Mae'r arolygiad hwn yn pwysleisio'r dulliau amrywiol o ymdrin â merched yn y system cyfiawnder troseddol. Fe welsom waith sensitif oedd yn cael ei dargedu'n dda, a oedd yn caniatáu i ferched adnabod y ffactorau a oedd yn arwain at iddynt droseddu, a oedd yn rheoli'r risg roeddent yn peri i eraill yn briodol, ac a oedd yn adnabod pan nad oedd merched yn ddiogel ac yn ymateb yn briodol. Fodd bynnag, roedd rhai diffygion difrifol. Yn rhy aml, roedd asesiad gwael o'r cysylltiadau rhwng bregusrwydd penodol merched a'u hymddygiad tramgwyddus. Yn benodol, mewn rhai ardaloedd, roedd ystyriaeth annigonol o'r risgiau uchel sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd gwaith amlasiantaethol yn aml wedi'i gydlynu'n wael. Oherwydd yr amrywiadau hyn wrth gyflwyno gwasanaethau, roedd yn anodd osgoi dod i'r casgliad: Os ydych chi'n ferch sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, mae ansawdd y gefnogaeth a'r cymorth rydych chi'n eu derbyn yn amrywio o fewn YOTs. a rhyngddynt a'i gilydd.

## Argymhellion

### Dylai Cadeiryddion Byrddau Rheoli Timau Troseddau Ifanc sicrhau:

- bod gwaith yn cael ei wneud i ddeall ac adnabod anghenion sy'n benodol i ferched a bod gwasanaethau priodol yn cael eu comisiynu i ddiwallu'r anghenion hynny
- bod effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer merched yn cael eu gwerthuso er mwyn cefnogi datblygiad a gwelliant parhaus yr arfer
- eu bod yn adolygu data fesul rhyw yn rheolaidd er mwyn deall tueddiadau merched sy'n troseddu, ac yna'n defnyddio'r data i ddatblygu ffurf a chynnwys darpariaeth y dyfodol
- bod cyswllt a chydweithrediad effeithiol rhwng Timau Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau eraill sy'n gweithio i ddiogelu merched mewn peryg o ddioddef camfanteisio rhywiol a bod effeithiolrwydd y cydweithrediad hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd: gan gynnwys unrhyw leoliadau y tu allan i'r ardal i ferched
- bod staff sy'n gweithio gyda merched yn meddu ar y sgiliau a hyfforddiant i asesu a bodloni anghenion penodol merched yn effeithiol.

### Dylai Rheolwyr Timau Troseddau Ifanc sicrhau bod:

- asesiadau o debygolrwydd o aildroseddu a risg o niwed yn cymryd effaith rhyw i ystyriaeth
- ymyriadau priodol yn cael eu cynnig i ddiwallu anghenion y merched
- asesiadau o fregusrwydd yn cymryd effaith rhyw i ystyriaeth ac ar gyfer *pob* merch yn ystyried posibilrwydd camfanteisio'n rhywiol ar blant
- ymarferwyr iechyd yn ymwneud yn ddigonol â'r gwaith sy'n cael ei wneud, yn benodol, mewn perthynas ag asesiadau, ymyriadau a rhannu gwybodaeth
- strategaethau ymadael yn cael eu datblygu i sicrhau bod gan ferched fynediad at gefnogaeth barhaus briodol pan mae'u hymwneud gyda Thimau Troseddau Ieuenctid yn dod i ben.

### Dylai awdurdodau lleol sicrhau:

- bod uwch bartneriaid corfforaethol<sup>3</sup>, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant ac aelodau etholedig, yn adolygu'n rheolaidd gyfradd troseddu Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl rhyw er mwyn sicrhau eu bod yn deall patrymau troseddu merched a'u bod yn gallu gweithredu i fynd i'r afael â hyn ble fo angen
- ble bod merched yn hysbys i ofal cymdeithasol plant, y dylid cynnal cyswllt rheolaidd tra'u bod yn y ddalfa fel bod cynlluniau ar gyfer eu rhyddhau yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac yn cynnwys yn llawn, yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol.

### Dylai heddluoedd sicrhau bod:

- cynlluniau ymyrraeth cynnar a gaiff eu comisiynu, eu darparu neu eu defnyddio gan yr heddlu, yn ystyried anghenion a buddiannau'r merched.

---

<sup>3</sup> Fel rhieni corfforaethol, dylai pawb sy'n gyfrifol am Blant sy'n Derbyn Gofal weithredu dros y plant fel y byddai rhiant cyfrifol a chydwybodol yn gwneud ar gyfer eu plant eu hunain.

# 1. Cefndir a methodoleg yr arolygiad

## Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu cefndir yr arolygiad, y fethodoleg a ddefnyddiwyd ac yn darparu trosolwg o broffil yr achosion a arolygwyd.

## Ffeithiau Allweddol

- Roedd yr holl achosion yr edrychom arnynt fel rhan o'r arolygiad hwn o ferched rhwng 11 a 18 mlwydd oed, ac roedd collfarn gan y mwyafrif.
- Edrychom ar rai achosion ble roedd gwaith yn cael ei wneud i atal merched rhag dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.
- Roedd hanner y merched a oruchwyliwyd gan YOTs yn y gymuned wedi cyflawni troseddau o drais.
- Roedd 38% o'r merched yn y sampl cymunedol yn Derbyn Gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd neu wedi gwneud yn y gorffennol.
- Cawsom farn 20 merch oedd yn gwneud dedfryd o garchar.

## Cylch gorchwyl a chefnidir

- 1.1 Arweiniwyd yr arolygiad thematig ar y cyd hwn gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi gyda chefnogaeth gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Y Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted, ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Comisiynwyd yr arolygiad hwn gan Grŵp y Prif Arolygwyr ar Gyfiawnder Troseddol fel rhan o *Gynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2012-2014*<sup>4</sup>.
- 1.2 Mae pryder wedi bod yn ddiweddar ynghylch nifer y merched yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Mae hefyd rhywfaint o dystiolaeth bod patrymau troseddu menywod yn dod yn debycach i rai dynion, er enghraifft, cyflawni troseddau yn cynnwys trais tra'n aml dan ddylanwad alcohol. Yn 2010, pwysleisiodd yr adroddiad arolygiad thematig *Message in a Bottle*<sup>5</sup> ar gamddefnydd sylweddau gan bobl ifanc gan Y Comisiwn Ansawdd Gofal ac eraill, y pryderon cynyddol ynghylch patrymau yfed merched a oedd wedi troseddu.
- 1.3 Sefydlwyd Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Fenywod yn y System Gosbi ym mis Gorffennaf 2009, wedi'i gadeirio gan y Farwnes Corston. Ym mis Hydref 2011 fe lansiodd ymchwiliad blwyddyn o hyd ar ferched. Daeth yr adroddiad a gyhoeddwyd, *From Courts to Custody*<sup>6</sup> i'r casgliad bod:

*"Merched yn llawer llai tebygol na bechgyn i orfod mynd i mewn i'r system gosbi ond pan maen nhw'n gwneud, mae eu hanghenion yn aml yn cael eu hanwybyddu neu'n esgeuluso. Mae gan system cyfiawnder ieuencid niwtral o ran rhyw sy'n seiliedig ar y risg o droseddu y potensial i wahaniaethu yn erbyn merched, yn enwedig pan fo anghenion lles yn cael eu drysu gyda risg. Mae diffyg dealltwriaeth ynghylch anghenion gwahanol merched sy'n gorfod mynd i mewn i'r*

<sup>4</sup> Cynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2012-2014 ar gael ar [www.hmcpsi.gov.uk/cjji/](http://www.hmcpsi.gov.uk/cjji/) Rhif Cyhoeddiad. CP001:812

<sup>5</sup> *Message in a bottle: A joint inspection of youth alcohol misuse and offending* ISBN: 978-1-84099-387-5

<sup>6</sup> *From Courts to Custody* (2012) ISBN 978-1-905994-49-6 London

*system cyfiawnder troseddol, braidd dim tystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio i ferched ac ychydig yn unig o raglenni wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer merched. I bob pwrpas, mae merched yn gorfod mynd i mewn i system cyfiawnder troseddol wedi'i gynllunio ar gyfer dynion gan bennaf."*

- 1.4 Mewn adroddiad arolygiad thematig ar y cyd ar fenywod sy'n troseddu, *Equal but Different*<sup>7</sup>, a gyhoeddwyd yn 2011 fe ddisgrifiwyd y cynnydd weddol dda oedd yn cael ei wneud wrth ddatblygu darpariaeth ar gyfer menywod sy'n oedolion mewn ymateb i bryderon ynghylch y nifer cynyddol o fenywod yn cael eu dedfrydu i garchar. Fodd bynnag, nid oedd y sylw cenedlaethol a roddwyd i ymdrin ac ymateb i fenywod sy'n troseddu wedi cael ei ddyblygu yng nghyfiawnder ieuencid. Tra roedd camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn ymateb i ganfyddiadau *Adroddiad Corston*, roedd y rhain wedi cael eu rhoi ar waith gan unigolion ymrwymedig yn hytrach na strategaeth neu bolisi a oedd yn cael ei gydlynu'n gyson yn genedlaethol.
- 1.5 Mae nifer y merched yn y ddalffa yn isel (tua 60 ar adeg yr arolygiad). Tra bod dim ymagwedd wedi bod ar gyfer rhywiau unigol, mae strategaethau eraill gyda'r nod o leihau'r defnydd o'r ddalffa ar gyfer pob plentyn a phobl ifanc wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y Llywodraeth yn lansio rhaglen *Trawsnewid y Ddalffa i Bobl Ifanc*, ym mis Ionawr 2014, sydd ymhlith pethau eraill, yn cynnwys cynlluniau newydd i wella gwasanaethau adsefydlu. Ymhlith y strategaethau eraill mae trawsnewid y gwaith o gynllunio dedfrydau a phrosesau gwaith achos yn y ddalffa a ffocws cryfach ar addysg yn y ddalffa. Mae diwygiadau hefyd wedi bod i bwerau cadw yn y *Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr* (LAPSO). Yn y YOTs y bu i ni eu harolygu, roedd y mwyafrif wedi rhoi strategaethau ar waith i gadw merched allan o'r ddalffa, gyda thri (Blackburn gyda Darwen, Abertawe a Sunderland) heb gael unrhyw ferched yn mynd i'r ddalffa am o leiaf flwyddyn ar adeg yr arolygiad.
- 1.6 Yn ddiweddar mae pryder hefyd wedi bod am ferched a'u defnydd o alcohol ac a yw hyn yn arwain at droseddu treisgar. Mae Sefydliad Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Alcohol ac Alcoholiaeth hefyd yn pwysleisio gwahaniaethau rhwng y rhywiau sef bod menywod yn datblygu problemau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar ôl yfed lefelau is o alcohol na dynion, a bod alcohol yn effeithio'n wahanol ar fenywod<sup>8</sup>.
- 1.7 O ran y sefyllfa yng Nghymru a Lloegr, rydym yn gwybod:
  - bod llai o ferched na bechgyn yn cyflawni troseddau, a phan maen nhw'n gwneud, maen nhw'n tueddu i fod yn droseddau llai difrifol na'r rhai mae bechgyn yn eu cyflawni
  - ers 2009-2010 mae nifer y merched sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf wedi gostwng 67% (50% i fechgyn)
  - yn y degawd diwethaf, mae merched wedi cyfri am rwng 16% a 22% o lwyth achosion YOT yng Nghymru a Lloegr
  - yn 2012-2013 goruchwyliwyd 9,486 o ferched gan YOT o'i gymharu â 39,722 o fechgyn
  - yn 2012-2013 y mathau mwyaf cyffredin o droseddau i ferched oedd trais yn erbyn y person, dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, difrod troseddol a threfn gyhoeddus. Mae'r patrwm yr un fath ar gyfer bechgyn<sup>9</sup>
  - ym mis Gorffennaf 2014 roedd 53 merch o dan 18 mlwydd oed yn y ddalffa (5% o'r plant

<sup>7</sup> *Equal but Different An inspection of the use of alternatives to custody for women offenders* ISBN 978-1-84099-485-8

<sup>8</sup> <http://www.niaaa.nih.gov/alcohol-health/special-populations-co-occurring-disorders/women>

<sup>9</sup> O'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014). Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2012/13 Cymru a Lloegr. Bwletin Ystadegau y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

yn y ddalfa<sup>10</sup>).

- 1.8 Yn ddiweddar mae pryder cyffredin hefyd wedi bod am raddau camfanteisio'n rhywiol ar blant sydd wedi arwain at nifer o ymchwiliadau, yn fwyaf nodedig ymchwiliad Jay ar ddigwyddiadau yn Rotherham<sup>11</sup>.

## Beth arolygom ni?

- 1.9 Cylch gorchwyl yr arolygiad oedd:

*Asesu effeithiolrwydd gwasanaethau troseddau ieuencid, ar y cyd â sefydliadau eraill wrth leihau'r tebygolrwydd o ferched yn troseddu ac yn lleihau'r risg o niwed maen nhw'n ei achosi i bobl eraill a'u gwneud yn llai agored i niwed (gan ganolbwyntio'n benodol ar gamddefnyddio alcohol).*

- 1.10 Yn benodol roedd yr arolygiad yn ceisio canolbwyntio ar beth oedd yn digwydd i ferched o fewn y system cyfiawnder troseddol, os oedd gwahaniaethau ymhlith y rhywiau yn cael eu cydnabod ac os oedd ymagwedd wahanol at weithio gyda merched.
- 1.11 Roeddem eisiau adnabod a oedd asesiadau cywir o unrhyw anghenion penodol i un rhyw a sefydlu a oedd merched yn gallu cael mynediad at ymyriadau addas a oedd yn debygol o leihau'r tebygolrwydd o droseddu, a rhai unrhyw risgiau roeddent yn eu hwynebu neu'n peri. Yn allweddol, roeddem yn awyddus i adnabod os oedd gwaith gyda merched yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau wrth eu hatal rhag troseddu.
- 1.12 Gwnaethpwyd penderfyniad hefyd i ystyried sut roedd merched yn cael eu cadw'n ddiogel gan gynnwys pa mor agored oeddent i ddiodeff camfanteisio rhywiol ar blant. Atgyfnerthwyd ein barn bod hwn yn fater a oedd yn debygol o fod yn nodwedd o rai o'r merched a'i bod yn ffactor a oedd angen ei ystyried pan fod y YOTs yn gweithio gyda merched yng ngwaith yr arolygiad peilot ac yn y cyhoeddiad *If only someone had listened*<sup>12</sup>, ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Plant ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn Gangiau a Grwpiau.
- 1.13 Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad rhwng Hydref a Rhagfyr 2013 ac roedd yn cynnwys ymweliadau â Chartrefi Diogel i Blant (SCHs), Canolfannau Hyfforddiant Diogel (STCs), gwasanaethau troseddau ieuencid, gwasanaethau addysg a phlant awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a heddluoedd.
- 1.14 Ymwelodd arolygwyr â chwech YOT, sef Blackburn gyda Darwen, Brighton, Lambeth, Leeds, Sunderland ac Abertawe. Roedd hefyd ymweliadau i gyfweld â merched yn y ddalfa yn Medway STC, Hassockfield STC, Vinney Green SCH, Redbank SCH a Swanwick Lodge SCH. Roedd ymweliadau hefyd ag asiantaethau partner a phrosiectau penodol y'u defnyddir ar gyfer merched.
- 1.15 Fe ddewisom ein sampl achos cymunedol yn ôl rhyw; roedd pob un yn ferch, 11 i 18 mlwydd oed ac wedi cael ymglymiad gyda gwasanaeth troseddau ieuencid. Roedd y rhain yn cynnwys achosion eisoes wedi'u dedfrydu (33) a nifer fechan o achosion o ferched a oedd yn hysbys i wasanaethau atal neu oedd a gwarediad cyn-lllys megis rhybudd terfynol neu rybudd amodol ieuencid (15). O'r 48 achos a ddewisom, dim ond ychydig dros hanner oedd wedi cyflawni trosedd o drais. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r rhain cafodd eu categorio fel rhai trais difrifol (un trosedd rhywiol a dau o ddwyn). Ble roedd y gollfarn am drosedd treisgar, ymosodiad cyffredin oedd mwyafrif yr achosion. Mewn wyth o'r achosion hyn, roedd yr ymosodiad ar staff mewn cartrefi gofal gydag un

<sup>10</sup> O [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/342521/youth-custody-report-june-2014.xls](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/342521/youth-custody-report-june-2014.xls)  
<sup>11</sup> Jay, A (2014) *Arolwg Annibynnol ar Gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rotherham 1997-2013*. Rotherham  
<sup>12</sup> Berelowitz, S. et al (2013). *"If only someone had listened" Adroddiad Terfynol Arolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Plant ar Gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn Gangiau a Grwpiau*. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

yn erbyn athro mewn uned cyfeirio disgyblion. Mewn pum achos roedd y dioddefwr yn ffrind, fel arfer yn fenywaidd, mewn tri achos roedd yr ymosodiad yn erbyn person anhysbys o'r un oedran ac mewn dau achos roedd yr ymosodiadau ar oedolion hysbys i'r ferch. Y math mwyaf cyffredin nesaf o drosedd oedd dwyn (12 achos).

1.16 Dyma rai o nodweddion y merched yn ein sampl achos cymunedol;

Ethnigrwydd:

- Roedd 71% yn Wyn Prydeinig neu Wyn Arall
- Roedd 16% yn Ddu Prydeinig: Caribiaidd neu Ddu Prydeinig: Arall
- Roedd 6% yn Wyn Cymysg neu a Ddu Prydeinig neu Gymysg Arall
- Roedd 2% yn Asiaidd
- Nid oedd 5% wedi datgelu'u hethnigrwydd.

Statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal:

- 14 yn Derbyn Gofal ar hyn o bryd
- 4 wedi Derbyn Gofal yn flaenorol.

Mathau o orchmynion:

- 13 gorchymyn cyfeirio
- 5 gorchymyn adsefydlu ieuencid (YRO) gyda goruchwyliaeth
- 2 YRO gyda goruchwyliaeth a chefnogaeth ddwys
- 10 YRO gyda gofynion eraill
- 1 gorchymyn cadw a hyfforddi (DTO)
- 2 gorchymyn gwarchodol adran 91<sup>13</sup>
- 10 achos yn agored i Wasanaethau Atal
- 2 rhybudd terfynol
- 3 rhybudd amodol ieuencid.

1.17 Asesodd arolygwr Ofsted effeithiolrwydd y gwaith ar y cyd rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant a'r YOTs a hefyd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y merched. Yng Nghymru, asesodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) y gwaith ar y cyd gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. Yng Nghymru a Lloegr, roedd hyn yn cynnwys cyfweild â rheolwyr a chyfarwyddwyr gwasanaethau plant, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr arbenigol.

1.18 Asesodd y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) y trefniadau a'r gwaith ar y cyd gyda darparwyr gofal iechyd gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer iechyd corfforol, rhywiol, emosiynol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn y YOTs y bu i ni ymweld â hwy yn Lloegr.

1.19 Asesodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi waith yr heddlu gyda merched gan gynnwys penderfyniadau yn ymwneud â chyhuddo a chynlluniau i wyro merched o'r system cyfiawnder troseddol.

1.20 Ymwelodd aelodau o'r tîm arolygu ag amrywiaeth o brosiectau a gwasanaethau oedd ynghlwm â'r gwaith gyda merched, er mwyn asesu ansawdd y gwaith ar y cyd. Rydym hefyd wedi cyfweild â nifer o bobl sy'n meddu ar naill ai diddordeb neu wybodaeth arbennig o ferched o fewn y system cyfiawnder troseddol.

---

13 Mae gorchymyn adran 91 yn dod o *Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000* ac mae'n cael ei roi gan lys y goron, am drosedd y gallai oedolyn dderbyn o leiaf 14 mlynedd yn y carchar amdano. Gall hyd y ddedfryd fod hyd at uchafswm y ddedfryd i oedolion gan gynnwys oes.

- 1.21 Ble fo'n bosib rydym wedi ceisio adnabod esiamplau o arferion da ac effeithiol er mwyn rhannu beth sy'n gweithio gyda chyrrff eraill â diddordeb, rydym wedi cynnwys nifer ym mhrif ran yr adroddiad hwn.
- 1.22 Ble fo'n bosib, fe gyfwelom â'r rheolwr achos ar gyfer y merched a ddewiswyd yn y sampl, fe archwiliom gofnodion a'r cynllunio i leihau aildroseddu a rheoli'r risg o niwed i eraill a risgiau i ferched unigol.
- 1.23 Yn ychwanegol at ein gweithgaredd arolygu yn y YOTs, fe gyfwelodd arolygwyr Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Ofsted â sampl ar wahân o ferched (20) yn y ddalfa i gael gwybodaeth am eu profiadau a chanfyddiadau o'r system cyfiawnder troseddol. Fe siaradom hefyd â staff perthnasol yn y STCs.

## 2. Ymagweddau at weithio gyda merched: trosolwg

### Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r ymagwedd a ddefnyddir gan YOTs wrth weithio gyda merched.

### Canfyddiadau Allweddol

- Ym mhob un o'r YOTs y bu i ni ymweld â hwy fe welsom wahanol ymagweddau at weithio gyda merched, a oedd wedi cael eu datblygu yn gyffredinol mewn modd tameidiog yn hytrach na thrwy unrhyw gyfarwyddyd strategol, gyda phob un yn cydnabod i ryw raddau yr angen i ddarparu gwasanaethau gwahaniaethol.
- Oherwydd diffyg gwerthusiad, nid yw'n bosib i asiantaethau ddangos os yw un ymagwedd at weithio gyda merched yn fwy effeithiol na'r gweddill.

### Cyflwyniad

- 2.1 Mae strategaethau i weithio gyda merched yn gallu amrywio ar hyd continwrm o safle ble does dim neu braidd dim gwahaniaethu rhwng merched a bechgyn (niwtral o ran rhyw), at fframwaith ymarfer sy'n gwneud addasiadau i wasanaethau wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer bechgyn i ddiwallu anghenion merched (sensitif o ran rhyw), i un sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer merched yn unig (benodol o ran rhyw). Fe ddarganfuom fod dim un YOT wedi mabwysiadu dull cwbl niwtral o ran rhyw o weithio; gyda phob un yn cydnabod i ryw raddau bod merched ddim fel arfer yn ymateb yn dda i'w dulliau o weithio y'u defnyddir gyda bechgyn.
- 2.2 Mewn rhai achosion ymddengys bod y strategaeth heb gael ei ddewis yn seiliedig ar dystiolaeth empirig glir; roedd y dull wedi datblygu dros amser, yn aml oherwydd symbyliad staff allweddol neu'r cyfluniad cyffredinol o adnoddau. Mae'r bennod hon yn darparu darlun o sut weithiodd y YOTs gyda merched yn ystod ein harolygiad.

### Ymagwedd yn seiliedig ar ryw

- 2.3 Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Leeds (YOS) wedi mabwysiadu ymagwedd yn seiliedig ar ryw at weithio gyda merched a oedd wedi troseddu. Roedd y YOS yn talu sylw i'w gwahaniaethau hysbys rhwng merched a bechgyn, ac yn ymateb mewn modd a oedd fwyaf addas ar gyfer anghenion y ferch a'i dewisiadau ymrwymo. Yn 2009 fe ddatblygon nhw bolisi ar weithio gyda merched. Ers hynny mae gwaith wedi cael ei wneud i weithio mewn modd a oedd fwyaf addas i ymrwymo'r merched ac i ddiwallu'u hanghenion penodol. Yn dilyn canfyddiadau *Adroddiad Corston*, cafodd dau reolwr gweithredol eu recriwtio ac fe hyfforddwyd nifer o'r staff i fod yn bencampwyr merched. Roeddent yn gyfrifol am lwyth gwaith yn cynnwys merched yn unig ac roeddent yn gallu canolbwyntio ar weithio gyda'r merched. Roedd yr ymagwedd yn sensitif i ryw gydag asesiadau yn dangos bod rheolwyr achos yn deall sut roedd merched yn mewnoli teimladau, sut roedd y rhain yn cael eu dangos, ac yn bwysig, sut i wneud i'r merched deimlo'n ddigon diogel i ddatblygu perthnasau allweddol, fel bod ymyriadau yn debygol o gael yr effaith gorau.
- 2.4 Roedd y YOS hefyd wedi datblygu ystod o ymyriadau seiliedig ar ryw, gan ddefnyddio'r cysyniadau allweddol o raglen seiliedig ar ryw, a oedd yn mynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus a'r materion sylfaenol megis hunan hyder a hunaniaeth. Cynigwyd y rhain ar sail unigol a grŵp yn dibynnu ar anghenion a dewisiadau unigolion.



- 2.5 Roedd cynllun cyswllt gwirfoddol yn bodoli er mwyn darparu cefnogaeth barhaus i ferched unwaith iddynt orffen eu gorchmynion. Roedd y bwriad y tu ôl i hwn yn dda ac roedd yn ymateb i'r farn bod cefnogaeth barhaus yn debygol o atal troseddu yn y dyfodol, fodd bynnag roedd rhai anawsterau gyda hyn. Nid oedd asiantaethau partner, gan gynnwys gofal cymdeithasol plant, yn deall natur wirfoddol y cyswllt ar bob adeg. Roedd y rhesymau dros y cyswllt, lefel y cyswllt a'r canlyniadau ddim yn ddigon clir. O ganlyniad, roedd nifer o ferched yn cael eu rheoli o fewn y YOS pan nad oedd eu hanghenion yn gysylltiedig â throseddu ac roeddent yn amlwg yn bodloni'r trothwy i dderbyn cefnogaeth gan ofal cymdeithasol plant. Nid oedd cefnogaeth ddigonol i strategaethau ymadael gan asiantaethau partner.
- 2.6 Y buddion posibl o'r ymagwedd hon oedd bod unrhyw ferch a oedd yn dod i gysylltiad â'r YOS yn gallu bod yn siŵr y byddai ei hanghenion unigol yn cael eu hadnabod ac y byddai'r staff a'r gwaith yn sensitif ac addas i faterion yn ymwneud â rhyw. Byddai diogelu yn cael ei gymryd o ddifrif a byddai asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gadw merched mor ddiogel ag y gallent.
- 2.7 Roedd gan ferched fynediad at ystod eang o raglenni penodol o ran rhyw, gan gynnwys y sawl i gynyddu hunanhyder, i reoli dicter ac emosiynau, ac i hyrwyddo perthnasau iachus.
- 2.8 Roedd angen gwneud gwaith i esbonio natur yr ymglymiad gwirfoddol gyda merched unwaith i'r gorchymyn ddod i ben, ac roedd hyn yn cynnwys sut roedd asiantaethau partner yn mynd i ddarparu cefnogaeth barhaus i ddiwallu anghenion pellach.

### Ymagwedd unigol

- 2.9 Gweithiodd YOS Sunderland mewn modd a oedd yn bwriadu diwallu anghenion unigol pob plentyn. Roedd y gydnabyddiaeth bod pob plentyn yn wahanol yn golygu bod anghenion merched fel arfer yn cael eu hadnabod.
- 2.10 Roedd nifer o reolwyr achos yn weithwyr cymdeithasol cymwys. Yn yr achosion hynny, roedd anghenion cyfannol y merched a'u teuluoedd yn cael eu hystyried. Roedd ymagwedd 'teulu cyfan' wedi cael ei fabwysiadu er mwyn cryfhau'r perthynas allweddol rhwng mam a merch.

#### Esiampl Arfer Da: Sunderland

Roedd Caroline, merch 16 mlwydd oed, yn byw gartref gyda'i mam a oedd yn yfed llawer. Roedd hyn yn achosi rhai anawsterau yn y berthynas rhyngddynt, oherwydd roedd Caroline yn cael trafferth yn ymdopi gydag ymddygiad ei mam pan roedd hi'n feddw. Ar adegau roedd Caroline yn defnyddio alcohol i'w helpu ymdopi. Roedd y rheolwr achos yn gallu gweld, er mwyn stopio Caroline rhag yfed a throseddu yn sgil hyn, roedd angen iddi hi ddatrys y problemau adref. Datblygodd y rheolwr achos berthynas dda gyda Caroline a chael dealltwriaeth dda o'r hyn oedd yn digwydd adref. Cefnogwyd mam Caroline i gael help gyda'i yfed ac o ganlyniad roedd gostyngiad yn y straen adref, roedd gwelliant yn berthynas rhwng y fam a'r ferch ac nid oedd Caroline yn yfed fel modd o ymdopi. Roedd ei thebygolrwydd o aildroseddu felly wedi lleihau.

- 2.11 Nid oedd y YOS yn rhoi merched unigol mewn grwpiau nac ar raglenni. Roedd gweithiwr benywaidd yn gallu gweithio'n unigol gyda merched ble aseswyd mai dyma oedd y dull gorau o weithio. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud ar sail unigol. Ymhlith y cyraeddiadau a nodwyd oedd ail-integreiddio'n llwyddiannus ym myd addysg, cynyddu hunanhyder trwy weithgareddau cadarnhaol. Roedd YOS Sunderland yn cynnig hyd at chwe mis o gyswllt gwirfoddol unwaith i orchymyn llys ddod i ben, neu trwy atgyfeiriad gan asiantaethau eraill, y bwriad wrth wneud hyn oedd atal unigolion rhag troseddu a chefnogi'r datblygiad o hunanhyder.

- 2.12 Golyga'r ymagwedd a gymerwyd bod anghenion unigol merched yn debygol o gael eu hadnabod; fodd bynnag ychydig ymyriadau penodol o ran rhyw oedd ar gael i ferched. Roedd y gwaith a wnaethpwyd yn ddiabyddol ar wybodaeth a sgiliau rheolwyr achos wrth weithio'n effeithiol gyda merched. Roedd rhai gwerthusiad strategol o arfer ac roedd rheolwyr wedi cynhyrchu adroddiad oedd yn cymharu canlyniadau merched a bechgyn.
- 2.13 Nid oedd y cysylltiadau rhwng y YOS ac asiantaethau partner i amddiffyn merched rhag camfanteisio rhywiol wedi'u datblygu'n ddigonol ac mewn rhai achosion golyga'r diffyg cefnogaeth ymarferol bod rheolwyr achos yn parhau i bryderu am rai materion a ddim yn meddu ar ddull cadarn o leihau'r risg i'r merched. Fe welsom esiamplau o ferched yn cael eu symud i rannau eraill o'r wlad er mwyn eu diogelu rhag camdriniaeth yn hytrach nag ymrwymiad gweithredol gydag asiantaethau eraill i fynd ar ôl y troseddwyd.

## Ymagwedd yn seiliedig ar hawliau

- 2.14 Roedd awdurdod lleol Abertawe wedi mabwysiadu Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<sup>14</sup>, gan gorffori hawliau plant ym mholisi'r cyngor. Mae Erthygl 12 yn pwysleisio hawliau pobl ifanc i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu gweithrediadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Gellir cymhwysu Erthygl 2 (peidio â gwahaniaethu) wrth ddarparu mynediad cyfartal at wasanaethau heb ots am ryw. Noda Erthygl 33 y dylai'r llywodraeth ddefnyddio pob dull posib i ddiogelu plant rhag y defnydd o gyffuriau niweidiol a rhag cael eu defnyddio yn y fasnach gyffuriau, ac yng Nghymru mae hyn yn cynnwys niwed oddi wrth alcohol. Noda Erthygl 36 y dylai plant gael eu hamddiffyn rhan unrhyw weithgaredd sy'n cymryd mantais ohonynt neu gallai niweidio'u lles.
- 2.15 Mae'r ymagwedd seiliedig ar hawliau a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol yn cefnogi ymagwedd y YOS. Roedd barn y merched a oedd mewn cysylltiad â YOS Abertawe wedi cael eu ceisio ynghylch pob elfen o'r gwaith, ac o ganlyniad roedd y gwasanaethau yn canolbwyntio ar eu hanghenion penodol.
- 2.16 Mae diwallu anghenion merched wedi bod yn flaenoriaeth ers 2008, a chafodd ei symblu yn rhannol gan gynnydd arwyddocaol yn nifer y merched yn dod i mewn i'r ddalfa yn ystod blwyddyn benodol, ynghyd â chynnydd yn nhroseddau treisgar a gyflawnwyd gan ferched. Roedd tîm rheoli'r YOS yn gwybod bod gan y merched anghenion cymhleth gan gynnwys teulu toredig, addysg wael, llely anaddas, camddefnyddio sylweddau a hunanhyder isel. Roeddent wedi adnabod bod darpariaeth a rhaglenni wedi'u targedu'n bennaf tuag at anghenion bechgyn. Roeddent hefyd wedi gweld bod asiantaethau eraill yn gallu gostwng gwasanaethau cefnogaeth yn sydyn oherwydd 'ymddieithrio' canfyddiedig gan merched. Roedd y YOS wedi sicrhau bod pryderon ynghylch diogelu'r merched a'r risg o hunanladdiad yn cael yr un flaenoriaeth â phryderon ynghylch diogelwch cyhoeddus.
- 2.17 Sefydlwyd gweithgor ac archwiliodd y staff gyda'r merched sut gellid gwneud pethau'n wahanol, ac yn hanfodol, beth ellid ei wneud i leihau nifer y merched yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol ac yn mynd i'r ddalfa.
- 2.18 Roedd YOS Abertawe hefyd yn darparu cefnogaeth barhaus i ferched unwaith i'w gorchymyn dod i ben neu'n dilyn gwyrriad o erlyniad, er roedd angen gwell cefnogaeth gan asiantaethau partner i helpu merched gyflawni ym myd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE).

---

<sup>14</sup> Agorodd y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn am lofnod, cadarnhad a chydsyniad gan Gynnig 44/25 y Cynulliad Cenedlaethol ar 20 Tachwedd 1989 a daeth i rym ar 2 Medi 1990, yn unol ag Erthygl 49

- 2.19 Yn yr arolygiad hwn fe welsom mai Abertawe oedd wedi datblygu'r cysylltiadau cryfach gydag academyddion ac maen nhw ynghlwm, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, â gwerthusiad ac ymchwil i ddarganfod beth sy'n gweithio ac i ddangos effaith ei ymagwedd ar ymddygiad tramgwyddus.
- 2.20 Mae'r ymagwedd a gymerwyd yn Abertawe wedi bod yn effeithiol yn lleihau nifer y merched yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Golyga'r defnydd effeithiol o'r Ganolfan (cynllun blaenoriaethu a gwyro) bod merched yn gallu cael eu cefnogi yn yr hir dymor i ymatal rhag ymddygiad sy'n debygol o arwain at weithgaredd troseddol.

### **Ymagwedd gydweithredol**

- 2.21 Mae awdurdod lleol Lambeth wedi mabwysiadu model cyngor cydweithredol o gyflwyno gwasanaethau. O ganlyniad, mae'r YOS wedi gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod asesiadau cynhwysfawr yn cael eu cynnal ar ferched a oedd wedi cyflawni troseddau. Roedd yr asesiadau trylwyr hyn wedi arwain at allu canolbwyntio a thargedu ymyriadau. Roedd gwaith gyda'r merched a oedd wedi troseddu yn cael ei yrru'n strategol ac roedd uwch reolwyr a chynghorwyr yn ymrwymedig at wella bywydau'r merched a'u cadw allan o ffyrdd tramgwyddus o fyw.
- 2.22 Roedd gwaith cydweithredol wedi arwain at ddatblygu strategaeth ymyrraeth tair blynedd a oedd yn cynnwys darpariaeth benodol o ran rhyw, megis gwaith yn ymwneud â pherthnasau, ymateb ar wahân i safbwyntiau bechgyn a merched. Roedd dealltwriaeth dda o rolau priodol gweithwyr ar draws gwasanaethau, gan osgoi dyblygu ymdrech a gwaith. Roedd strategaethau ymadael clir wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer merched, y gorau i ni eu gweld yn ystod yr arolygiad hwn, a oedd yn cael eu darparu â chefnogaeth addas barhaus gan asiantaethau partner ar ôl i'w gorchymyn dod i ben, gan gael gwared ar yr angen i ferched aros yn y system cyfiawnder troseddol.
- 2.23 Golyga'r ymagwedd a gymerwyd yn Lambeth bod merched a oedd wedi troseddu yn cael eu cefnogi trwy ddealltwriaeth o'u hanghenion yn ymwneud â throeddu. Roedd merched yn gallu datblygu perthnasau effeithiol yn seiliedig ar ymddiriedaeth gyda staff ac roeddent yn cael eu darparu â chefnogaeth barhaus dda gan asiantaethau eraill unwaith i'w gorchymyn dod i ben. Trwy hyn roedd hunanhyder y merched yn cael ei hwyluso, oherwydd roedd y staff yn deall ac yn adlewyrchu'r cyfraniad mae merched a menywod yn gwneud o fewn y gymuned leol. Roedd y gwaith yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau a gwydnwch y merched, er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned a'u teuluoedd.

### **Ymagweddau eraill**

- 2.24 Yn y ddau YOT arall y bu i ni ymweld â hwy, fe welsom, er bod llai o dystiolaeth o strategaeth gyffredinol yn ymwneud â gwaith gyda merched, roedd yn amlwg bod rheolwyr achos, yn gyffredinol, yn gweithio mewn dulliau a oedd yn ceisio diwallu anghenion merched a bod staff yn ymwybodol o'r gwahaniaethau a ddaw wrth weithio gyda merched. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth bod y ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad tramgwyddus merched yn aml yn ymwneud â materion o hunanhyder a chanfyddiad.

### **Casgliad**

Nid oedd bob tro'n amlwg i ba raddau roedd adnoddau ac arfer yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o anghenion merched yn nhermau niferoedd, nodweddion neu ymddygiad tramgwyddus. Roedd yn amlwg bod strategaethau wedi ymddangos dros amser mewn gwahanol amgylchiadau a'u bod yn datblygu'n gyson, fodd bynnag nid yw'n bosib nodi â sicrwydd os oedd unrhyw ymagwedd benodol yn well nag un arall.

### 3. Diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu

#### Crynodeb

Mae'r bennod hon yn archwilio sut aeth staff y YOT ati i weithio gyda merched i leihau'u haildroseddu a rheoli'r risg o niwed i eraill.

#### Canfyddiadau allweddol

- Roedd asesiadau o'r risg o niwed roedd y merched yn peri yn gywir ac roedd y risg o niwed i eraill yn cael ei reoli'n effeithiol.
- Nid oedd asesiadau o'r tebygolrwydd o aildroseddu bob tro'n ystyried materion rhyw.
- Roedd y defnydd o alcohol yn ffactor mewn troseddau mewn chwarter o achosion yn unig.
- Roedd rhai merched a oedd yn Derbyn Gofal wedi cyflawni troseddau pellach unwaith iddynt fynd i mewn i ofal; mewn rhai achosion roedd diffyg ymagwedd sensitif i ryw at reoli'u hemosiynau ar ran y staff yn amlwg.
- Roedd yr amrywiaeth ac argaeledd o ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus yn amrywio, gyda rhai rhaglenni da yn seiliedig ar ryw. Mewn rhai ardaloedd fodd bynnag, roedd merched yn ymgymryd ag ymyriadau wedi'u cynllunio ar gyfer bechgyn a oedd heb gael eu haddasu'n gywir.
- Roedd gwasanaethau yn bodoli i helpu merched rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

#### Asesu a rheoli'r risg o niwed i eraill

- 3.1 Dangosodd yr achosion archwiliwyd gennym fod asesiadau o risg i newid yn gywir ac yn briodol.
- 3.2 O fewn ein sampl o 48 achos, roedd gweithwyr YOT wedi asesu bod: 22 yn risg isel o niwed i eraill, 19 yn risg canolig, 2 yn risg uchel ac 1 yn risg uchel iawn o niwed. Roeddem yn cytuno gyda mwyafrif helaeth y lefelau o risg o niwed i eraill a bennwyd gan y rheolwr achos, fodd bynnag, mewn nifer fechan o achosion, fe welsom na fod yr asesiad o'r risg o niwed o archwilio'n llawn y cyswllt rhwng perthnasau; nid oedd emosiynau a risg yn cael eu hystyried yn llawn bob tro. Roedd hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pan roedd merch yn drist neu'n grac am doriad teuluol, neu roedd yn ceisio tarfu ar drefniadau gofal eraill, mewn ymgais i fynd yn ôl adref.

Esiampl o Arfer: Roedd Claris yn 17 mlwydd oed pan gafodd hi eu dyfarnu'n euog o feddu ar gyllell roedd hi wedi defnyddio i fygwth aelod o'r cyhoedd tra roedd hi allan yn cardota. Roedd hi'n teimlo'n anniogel ar ôl cael ei thafu allan o'i chartref gan ei mam ac yn teimlo'r angen i amddiffyn ei hun. Er bod hyn yn ymddangos yn eithafol, roedd Claris wedi dioddef ymosodiad difrifol â chyllell yn flaenorol. Dywedodd hi ei bod wedi cael ei hun wedi arestio er mwyn teimlo'n fwy diogel yn nalfar heddlu nag oedd hi wedi gwneud ar y stryd.

- 3.3 Mewn 26 o'r 48 achos yn ein sampl, roedd y drosedd yn un ble defnyddiwyd trais. Yn unol â hyn, fe adnabuom tair thema allweddol:
  - enghreifftiau ble roedd yr unigolyn yn teimlo'n agored i niwed neu dan fygythiad. Roedd y rhain yn cynnwys sefyllfaoedd ble roedd y ferch yn teimlo ei bod hi mewn peryg o risg o niwed gan eraill os nad oedd hi'n gwneud beth roedd hi wedi cael ei orchymyn i'w wneud

- roedd merched yn gallu cyflawni gweithredoedd o drosedd os oeddent yn ceisio ffitio i mewn neu gael eu derbyn gan gyfoed(ion), weithiau roedd hyn yn ymateb i broblemau gyda rhieni/gofalwyr neu gyda pherthnasau agos
- roedd rhai merched a oedd yn Derbyn Gofal yn cyflawni troseddau ymosodiad cyffredin yn erbyn staff gofal yn aml ar adeg o argyfwng neu wrthdaro, gan gynnwys pan roeddent yn teimlo dan fygythiad o gael eu ffrwyno.

Esiampl Achos: Dychwelodd Kerry i'w chartref plant yn dilyn ymweliad cyswllt gyda'i rhieni. Roedd yr ymweliad wedi gofidio Kerry a gofynnwyd iddi gan staff y cartref a oedd hi eisiau siarad am y peth. Dywedodd Kerry nad oedd hi ddim yn barod i siarad â staff a'i bod hi eisiau bod ar ei phen ei hun am sbel. Yn ddiweddarach yr un diwrnod aeth aelod arall o staff i siarad â Kerry ac fe safodd rhyngddi a'r teledu, gan dorri ar draws y rhaglen roedd hi'n gwyllo. Gofynnodd i Kerry a oedd hi'n barod i siarad am y cyswllt ac ar yr adeg yma nid oedd hi eisiau siarad â'r aelod o staff. Roedd hi eisiau gadael yr ystafell, roedd hi'n gwybod y byddai hi'n cyffroi ac yn mynd yn grac. Fe geisiodd hi adael i fynd i'w hystafell ac fe safodd yr aelod o staff yn y ffordd, a'i gwthio yn ôl ar y sofa i bob pwrpas. Fe frwydrodd Kerry yn ôl a bwrw'r aelod o staff. Cafodd Kerry ei harestio, ei chyhuddo a'i dyfarnu'n euog o ymosodiad cyffredin.

- 3.4 Roedd YOTs yn gallu cynnig amrywiaeth o ymyriadau i ymateb at droseddu treisgar. Roedd Leeds a Lambeth wedi datblygu ymyriadau neu strategaethau da penodol o ran rhyw i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus gan gynnwys troseddau cylllell, troseddau treisgar a rhaglenni troseddu cyffredinol. Mae gan fwyafrif y rhaglenni hyn elfen o edrych ar berthnasau ac effaith perthnasau ar droseddu.

Esiampl Arfer Da: Rhaglen rheoli emosiynau wyth diwrnod o hyd yw 'Express Yourself' a ddatblygwyd gan YOS Leeds gyda'r bwriad o gynorthwyo merched i ddeall beth sy'n sbarduno'u dicter ac emosiynau cryf; adnabod pryd mae newidiadau corfforol yn digwydd pan maen nhw'n grac; dysgu sut i fod yn bendant (yn hytrach na'n ymosodol) a mynegi'u hunain; dysgu sut i gamu allan o sefyllfaoedd; a gwybod eu hawliau a hawliau pobl eraill.

- 3.5 Fe wnaethom asesu achosion ble roedd y merched yn peri risg uchel o niwed i bobl eraill. Yn y ddau achos uchel a'r un uchel iawn, roedd y risgiau wedi'u hadnabod yn glir ac roedd cynlluniau'n bodoli i reoli a lleihau'r risg i ddiodefwyr. Roedd ymrwymiad effeithiol gyda Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn y pedwar achos ble roedd ei angen. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau pontio effeithio pan roedd rhaid i ferched symud ardal er mwyn amddiffyn diodefwyr.
- 3.6 Math o risg a oedd braidd yn cael ei ystyried oedd y potensial i ferched fod ynghlwm â chamfanteisio rhywiol, i gael eu defnyddio i ddenu neu ymbaratoi merched eraill i mewn i sefyllfaoedd ecsbloetiol, gan gynnwys sut gellir defnyddio merched i fod yn gyfeillion i ddiodefwyr posib, bregus eraill sy'n aml yn iau i gwrdd ag oedolion sy'n peri risg i eraill.
- 3.7 Yn gyffredinol, fe ddarganfuom fod camau wedi cael eu cymryd i gadw'r risg o niwed i eraill mor isel â phosib mewn 83% o achosion ble aseswyd bod eu hangen ac i ddiogelu diodefwyr a diodefwyr posib mewn 79% o achosion perthnasol.

### Lleihau aildroseddu

- 3.8 Roedd asesiad cywir a digonol o'r tebygolrwydd o aildroseddu wedi cael ei gwblhau mewn 69% o'r achosion. Nodom hefyd asesiad da o faterion ETE mewn dros 80% o asesiadau. Ychydig iawn o'r asesiadau oedd yn cyfeirio at faterion rhyw a'r gwahaniaeth y gallai hyn ei wneud. Roedd hyn fwyaf amlwg ym maes perthnasau ac iechyd emosiynol. Golyga hyn bod rhai o'r ffactorau sbardun a oedd yn achosi i ferched droseddu yn cael eu colli, gan gynnwys gallu'r merched i fynegi'u rhwystredigaethau ac emosiynau mewn modd addas.

- 3.9 Mewn nifer o'r asesiadau a welsom, roedd y cofnodi yn annigonol, ond roedd gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr y YOT o'r merched yn well. Nid oedd cynlluniau ymyrraeth Ased<sup>15</sup> bob tro'n ddefnyddiol o ran nodi gweithrediadau neu amcanion penodol i'r merched eu cyflawni, ychydig o gynlluniau yn unig oedd yn cynnwys datblygu perthynas, er bod mwyafrif y rheolwyr achos yn gwybod bod hyn yn hanfodol wrth weithio i gyflawni hyn. Roedd mwyafrif yr achosion yn methu â chynnwys y rôl a chefnogaeth roedd nifer o ferched eu hangen gan rieni/gofalwyr, er bod llawer o waith yn cael ei wneud gan reolwyr achos i wella'r perthnasau hyn.

Esiampl Arfer Da: Cynllunio

Roedd y cynllun gweithredu integredig a ddefnyddiwyd yn Lambeth yn darparu manylion am gryfderau'r merched a meysydd o bryder. Ysgrifennwyd y cynllun gyda hwy ac o'u safbwynt nhw. Mewn un achos roedd yr adran â'r teitl '*pa gefnogaeth ydw i ei angen i gwblhau'r gorchymyn*' yn cynnwys y canlynol: '*gwrando ar, a deall, beth rwy'n ei ddweud*', '*ateb fy nghwestiynau*', a '*bod gweithwyr yn gwneud beth maen nhw'n dweud y byddant yn gwneud*'. Roedd cael cydnabyddiaeth o'r anghenion sylfaenol hyn yn helpu'r ferch ymrwymo â gorchymyn y llys ac yn gweithredu fel rhywbeth i atgoffa'r rheolwr achos i wrando heb dorri ar draws ac i weithredu ar eu hymrwymadau. Roedd y broses hon yn cael ei chynorthwyo gan y ffaith bod therapydd lleferydd ac iaith wedi addasu dulliau asesu i gymryd sylw o gyflwyniad mwy mynegiannol merched.

- 3.10 Pan siaradom â rheolwyr achos ynglŷn â sut roedden nhw'n gweithio gyda merched, roedd y mwyafrif yn gallu disgrifio'r camau gymeron nhw i ddiwallu anghenion. Fe welsom nifer o esiamplau o ferched yn cael eu gweld i ffwrdd o'r YOT pan nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus ar safle'r YOT, neu'n cynnig hyblygrwydd o ran amserau apwyntiadau a defnydd da o ymweliadau cartref (defnyddiwyd y rhain gan reolwyr achos i asesu a monitro sefyllfaoedd cartref ac i helpu'r merched deimlo'n gartrefol). Fe ddigwyddodd hyn ond darganfuwyd y gofynnwyd i draean o'r merched yn unig a oeddent yn teimlo'n ddiogel yn mynychu'r YOT.
- 3.11 Roedd traean o'r merched yn y sampl wedi cael cynnig rheolwr achos benywaidd. Mae'n bwysig bod rhyw yn cael ei ystyried wrth bennu rheolwyr achos er mwyn sicrhau bod y ferch yn teimlo'n gyfforddus yn ystod trafodaethau ac er mwyn i'r merched fod yn ymrwymedig i oruchwyliaeth ac ymyriadau ymddygiad tramgwyddus. Yn ymarferol, fe ddarganfuom fod gan fwyafrif y merched yn y sampl reolwyr achos benywaidd, ond roedd ystod o systemau pennu, yn amrywio o bennu rheolwr benywaidd yn awtomatig, pennu fesul achos unigol a phennu yn ôl yr adnoddau sydd ar gael. Pan roedd merched yn cael eu cyfeirio at weithwyr partneriaeth, yn anaml roeddent yn cael eu gofyn a fyddai well ganddynt gael gweithiwr o ryw benodol ac mewn rhai YOTs doedd dim dewis heblaw am weld gweithiwr gwrywaidd. Roedd rhai rheolwyr achos yn sensitif i hyn ac yn tawelu meddwl y ferch a chyflwyno'r gweithiwr, ond nid oedd hyn yn digwydd bob tro. O ystyried y profiadau roedd rhai o'r merched wedi'u cael, nid oedd syndod bod nifer yn cael anhawster yn datblygu perthynas gyda gweithwyr (gwrywaidd a benywaidd) ac â dim ffydd mewn oedolion. Roedd angen mwy o feddwl a chynllunio er mwyn sicrhau bod hoffterau a phrofiadau'r merched yn cael eu parchu. Mewn 1 achos o ferch 15 mlwydd oed sy'n Derbyn Gofal, fe gyfrom 17 gweithiwr gwahanol ynghlwm â'r achos; roedd hi'n gyson yn cael ei disgrifio fel un '*anodd ennyn ei diddordeb*'.

Dyfyniad gan Helen, merch ar orchymyn cymunedol:

<sup>15</sup> Dull asesu strwythuredig yn seiliedig ar ymchwil ac a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn edrych ar drosedd y plentyn neu berson ifanc, amgylchiadau personol, agweddau neu gredoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad tramgwyddus

*"Doeddwn i ddim yn gyrru ymlaen gydag un o fy ngweithwyr a fyddwn i ddim yn mynd i'w gweld hi, yna gofynnwyd i mi a oeddwn i eisiau newid gweithiwr. Dewisais y gweithiwr roeddwn i ei eisiau ac roedd e'n wych, doedd e ddim yn esgus gwybod beth roeddwn i'n meddwl, roedd e'n gofyn i mi ac roeddwn i'n gallu dweud wrtho. Daeth i fy adnabod ac roeddwn yn gallu ymddiried ynddo. Fe helpodd i mi gael lle mewn coleg, fe helpodd i mi ddatrys fy mhroblemau, fe siaradodd â mi yn blwmp ac yn blaen a dyna beth oedd ei angen arnaf."*

3.12 Roedd darpariaeth ac argaeledd ymyriadau priodol i'r rhywiau yn amrywio. Tra roedd rhai YOTs yn gallu cynnig rhaglenni ar gyfer rhywiau penodol, roedd YOTs eraill yn dibynnu ar staff yn addasu ymyriadau cyfredol. Yn ystod ein hymweliadau, fe welsom nifer o raglenni i ferched a oedd, mewn gwirionedd, ddim yn addas oherwydd, er enghraifft, roedd y deunyddiau a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar brofiadau bechgyn a dynion. Roedd yn anodd gweld sut byddai merched yn gallu ymwneud â rhaglenni fel hyn. Roedd gan dri YOT raglen o ymyriadau i ferched tra bod dim gan eraill.

#### Esiampl Arfer Da: Cynyddu hunanhyder

Roedd YOS Sunderland wedi datblygu rhaglen gyda'r Gwasanaeth Tân gyda'r bwriad o gynyddu hunanhyder plant a phobl ifanc a'u helpu i ddatblygu hunandibyniaeth a sgiliau gweithio mewn tîm. Roedd y rhaglen ar gael i ferched a bechgyn, ond ar ôl datblygu'r rhaglen, dangosodd y gwerthusiad bod ymddygiadau'n newid pen ddewiswyd grŵp cymysg. Penderfynodd y tiwtoriaid geisio gwahanu'r bechgyn o'r merched, ac ar gyfer y merched fe ddarganfuwyd bod hyn yn fwy buddiol. Roedd y cwrs wedi'i leoli mewn gorsaf dân leol ac yn canolbwyntio ar herio merched i drïo pethau y byddent erioed wedi cael y cyfle i'w wneud o'r blaen, gan gynnwys gweithredu offer a gweithio'n agos gydag eraill er mwyn cyflawni tasgau anodd. Yn allweddol i'r cyflawniad llwyddiannus oedd yr angen am sgiliau cyfathrebu manwl gywir ac effeithiol mewn sefyllfaoedd anodd. Ar ddiwedd y rhaglen, gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i fynychu arddangosiad o'r merched yn perfformio sgiliau newydd, fel rhan o seremoni cwblhau'r cwrs. Dangosodd adborth a gasglwyd gan ferched a oedd wedi cwblhau'r cwrs, rhieni/gofalwyr a gweithwyr bod y canlyniadau ar gyfer y merched hynny a oedd wedi mynychu yn cynnwys gwell cyfathrebu ag eraill, mwy o hunanhyder a hunanwerth a newid positif mewn ymagwedd.

3.13 Roedd ffactorau heblaw am ryw wedi effeithio ar ferched. Mewn dim ond hanner yr achosion roedd asesiad digonol o ffactorau amrywiaeth heblaw am ryw. I rai merched roedd eu hethnigrwydd, crefydd a disgwyliadau o'r gymuned yn cyflwyno pwysau gwahanol iawn.

#### Esiampl Arfer Da: Amrywiaeth

Yn Abertawe, fe ymwelom â Phrosiect Tim Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST). Fe'u cychwynwyd mewn ymateb i'r anawsterau ychwanegol a wynebier gan bobl ifanc lleiafrifol ethnig ble mae cael hil, crefydd, iaith neu ddiwylliant gwahanol yn gallu gwneud hi'n anoddach i'r plant a phobl ifanc a'u teuluoedd gael cymorth a chefnogaeth pan maen nhw ei angen. Mae ganddynt ystod o brosiectau gan gynnwys sesiwn alw heibio i ferched. Mae'r YOT yn gallu cyfeirio merch i'r prosiect os oes angen. Mae gweithwyr EYST hefyd yn gallu cefnogi merched a'u teuluoedd os ydynt yn dod i gysylltiad â'r heddlu. Effaith hyn oedd bod y merched y'u cyfeiriwyd at y prosiect yn fwy cymwys i wneud penderfyniadau adeiladol am gyfeiriad eu bywyd yn y dyfodol.

3.14 Fe welsom esiamplau o gefnogaeth i helpu merched fynd yn ôl i addysg, ond roedd rhai merched wedi cael profiadau gwael. Mewn dwy ardal, roedd cysylltiadau gydag addysg ar lefel strategol yn gyfyng ac nid oedd gweithwyr addysg o fewn y YOT mewn safle i allu cyfeirio unrhyw broblemau yn hawdd at uwch aelodau o staff i'w datrys. Fodd bynnag, mewn pedwar YOT golyga'r berthynas gyda darparwyr ETE bod gweithwyr addysg mewn safle da yn lleol i ddatrys unrhyw faterion mynediad wrth iddynt godi. Roedd addysg rhai

merched wedi cael ei darfu, yn enwedig y merched hynny a oedd yn Derbyn Gofal ac a oedd wedi symud rhwng lleoliadau gofal. Roedd hyn yn arwain at ferched yn gorfod newid darparwr addysg ac roedd hyn yn aml yn achosi tarfu yn y dysgu a chymhelliant.

### Effaith y defnydd o alcohol

- 3.15 Roedd alcohol yn ffactor yn y troseddu mewn dim ond chwarter o'r achosion a aseswyd gennym, er roedd yn glir bod alcohol yn cael ei defnyddio gan nifer o ferched fel modd o ymdopi gyda phroblemau emosiynol, ac mae natur y troseddu yn ymwneud ag alcohol yn amrywio o ardal i ardal. Fe ofynnem am wybodaeth o'r heddlu am garchariadau am droseddau yn ymwneud ag alcohol<sup>16</sup> yn ystod 2013. Fe ofynnem am y cyfanswm a dadansoddiad fesul oedran (o dan a dros 18 mlwydd oed) a rhyw.
- Rhoddodd Heddlu Swydd Gaerhirfryn y wybodaeth ganlynol i ni ar gyfer Blackburn: a ddangosodd dros y flwyddyn (Ionawr i Ragfyr 2013) mai nifer y bobl a gadwyd am droseddau yn ymwneud ag alcohol oedd 2,659 o'r rhain roedd 482 yn fenywod, 145 yn iau na 18 mlwydd oed; roedd 34 yn ferched.
  - Rhoddodd Heddlu Gorllewin Sussex y wybodaeth ganlynol i ni ar gyfer Brighton: a ddangosodd dros yr un cyfnod mai nifer y bobl a gadwyd am droseddau yn ymwneud ag alcohol oedd 454 o'r rhain roedd 93 yn fenywod, 33 yn iau na 18 mlwydd oed ac o'r rhain roedd 15 yn ferched.
  - Rhoddodd Heddlu Northumbria y wybodaeth ganlynol i ni ar gyfer Sunderland: a ddangosodd dros yr un cyfnod mai nifer y bobl a gadwyd am droseddau yn ymwneud ag alcohol oedd 1,782 o'r rhain roedd 358 yn fenywod, 149 yn iau na 18 mlwydd oed ac o'r rhain roedd 56 yn ferched.
- 3.15 Yn Lambeth, nid oedd yr Heddlu Metropolitaidd wedi cael unrhyw garchariadau o fenywod yn iau na 18 mlwydd oed; roedd hyn yn gyson gyda gwybodaeth roedd YOS Lambeth yn cadw am y merched roeddent yn gweithio gyda hwy: nid oedd alcohol yn nodwedd yn y troseddu ar gyfer eu merched, er fe welsom yr un patrwm o anawsterau emosiynol a thrawma cynnar fel y gwelsom mewn ardaloedd eraill.
- 3.16 Roedd yr asesiad cychwynnol, o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y merched yn troseddu, yn cynnwys digon am effaith alcohol ym mywyd y ferch mewn dau draean o'r achosion ble roedd yn berthnasol. Roedd rheolwyr achos yn siarad â'r merched am sut a phryd roedden nhw'n yfed alcohol. Er bod rheolwyr achos yn aml yn dweud wrthym pam roedd y merched yn yfed, roedd cofnod yr asesiad yn aml yn methu â nodi beth oedd wedi sbarduno'r yfed. Roedd cofnodion yn tueddu i nodi math a chyfaint yr alcohol yfwyd a ble ddigwyddodd hyn. Yn aml nid oedd hypothesis neu farn y rheolwyr achos ynghylch pam roedd yr unigolyn yn yfed yn cael ei gofnodi, yn ein barn ni, ni fyddai'n afresymol nodi os oedd y defnydd o alcohol yn rhan o arbrofi arferol, yn rhan o bwysau gan gyfoedion neu, yn fwy arwyddocaol, yn cael ei ddefnyddio i guddio neu anghofion am emosiynau anodd.
- 3.17 Fe ddarganfuom fod ymyrraeth yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, wedi cael ei chynllunio a'i ddarparu mewn 68% o achosion ble roedd ei angen, fodd bynnag, gellid gweld effaith bositif i'r ymyriadau hyn mewn dim ond 43% o achosion.
- 3.18 Fe welsom ychydig dystiolaeth o werthuso i ganfod effeithiolrwydd ymyriadau, ac roedd adolygiadau o ffactorau yn ymwneud â throseddu yn tueddu i ymdrin â chamddefnyddio

---

<sup>16</sup> Gyda throseddau yn ymwneud ag alcohol fe ofynnem am wybodaeth ar: Meddw ac Afreolus, Meddw ac Analluog a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus ble roedd y troseddwr wedi meddwi.



alcohol ar wahân i iechyd emosiynol a meddyliol er bod tystiolaeth bod y ddau ffactor yn aml yn gysylltiedig.

### **Bodloni gofynion iechyd**

- 3.19 Ychydig gysondeb oedd yn yr asesiadau a chyfeiriadau at wasanaethau iechyd, roedd trothwyon yn amrywio ym mhob YOT ac roedd gwahanol lwybrau cyfeirio. Nid oedd y rhain bob tro'n glir ac weithiau roedd yn gymhleth iawn cael mynediad atynt. Ar ben hyn, dywedodd staff iechyd gymaint anoddach roedd hi i weithio gyda merched yn hytrach na bechgyn a'u bod hefyd yn meddwl bod ymrwymo gyda merched yn gyffredinol yn anoddach.
- 3.20 Nid oedd staff YOT bob tro'n gwneud defnydd o adran iechyd corfforol Asset i asesu sut mae materion iechyd yn gallu bod yn gysylltiedig â throseddau. Mewn un achos welsom yn Sunderland, nid oedd y ferch yn dod i apwyntiadau gyda YOT. Cynhaliwyd prawf sgrinio iechyd syml a phrawf llygaid ble darganfuwyd problem golwg sylweddol a oedd yn golygu na fod y ferch yn gallu darllen rhifau bysiau. Rhoddwyd lensys cyffwrdd iddi ac ar ôl hynny roedd hi'n cydymffurfio gyda'i hapwyntiadau. Fe welsom achosion ble nad oedd effaith corfforol yfed rheolaidd neu mewn pyliau yn cael ei hasesu neu ei hystyried.
- 3.21 Roedd ymwybyddiaeth o faterion iechyd merched yn aml yn seiliedig ar brofiad a gwybodaeth gyffredinol yn hytrach nag asesiad cynhwysfawr. Roedd canlyniadau asesiadau wedi'u cwblhau ddim bob tro wedi'u hymgorffori yn asesiad Asset, ac roedd cynlluniau iechyd yn tueddu i fod ar wahân i brif gynlluniau ymyrraeth YOT.
- 3.22 Fe welsom fod gwybodaeth am faterion iechyd fel arfer yn cael ei rannu, ond yn aml yn anffurfiol. Roedd yn anodd gweld sut roedd staff iechyd wedi cyfrannu at asesiadau o fregusrwydd, er yn aml fod ganddynt wybodaeth allweddol am, er enghraifft, defnyddio sylweddau, alcohol ac iechyd rhywiol.
- 3.23 Fe welsom, fodd bynnag, rhai esiamplau o lwybrau da yn helpu cyfeirio merched at ymyriadau iechyd priodol. Fe nodom hefyd bod adroddiadau iechyd ysgrifenedig i hysbysu cyfarfodydd amlasiantaeth o ansawdd da ac yn gynhwysfawr.
- 3.24 Ni welsom lawer o ymyriadau iechyd a oedd yn cefnogi anghenion iechyd emosiynol merched. Mewn nifer o achosion, roedd atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ond dim ond ble roedd materion iechyd meddwl. Roedd mynediad at CAMHS yn amrywio a ni welsom dystiolaeth o strategaeth i ymrwymo â merched mewn modd gwahanol a oedd yn adlewyrchu'u rhyw neu brofiadau bywyd.
- 3.25 Fe welsom rhai achosion ble roedd merched wedi beichiogi ac yn yr achosion hynny fe welsom gefnogaeth arbenigol o wasanaeth y bydwagedd, ynghyd ag esiamplau o sut roedd staff y YOT wedi cefnogi'r merched i wneud cysylltiadau addas gyda bydwagedd a gwella siawns y merched o gael mynediad at ofal cynenedigol.
- 3.26 Ar ddiwedd y gorchymyn, nid oedd yn glir pa wybodaeth iechyd oedd yn cael ei phasio ymlaen at ymarferwyr cyffredinol er mwyn gallu monitro neu gefnogi ymyriadau iechyd neu i hysbysu ymarfer yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod defnydd y merched o alcohol yn aml yn gysylltiedig â materion iechyd emosiynol, a oedd yn barhaol.

### **Merched a oedd yn Blant sy'n Derbyn Gofal**

- 3.27 Roedd 18 merch yn y sampl achos a oedd naill ai'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal ar hyn o bryd (14) neu a oedd wedi bod mewn gofal yn flaenorol (4). Roedd statws Derbyn Gofal y merched hyn yn cyflwyno cymhlethdodau ychwanegol i reolaeth achosion, gan gynnwys

yr angen i weithio gydag ystod ehangach o weithwyr eraill; ymateb i a deall materion gwahanu a brofwyd gan y merched pan roeddent ar wahân o'u teulu a'u ffrindiau; ac amhariad i nifer o feysydd o fywydau'r merched os oedd lleoliadau i ffwrdd o ardaloedd cartref. Yn ychwanegol, roedd mwy o weithwyr ynghlwm â rhai o'r achosion hyn, os oedd yr achos wedi'i drosglwyddo rhwng YOTs.

- 3.28 Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol yr ymwelom â hwy yn gwybod am gyfraddau troseddu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ond nid oeddent wedi dadansoddi'r data fesul rhyw. Roedd Lambeth wedi ystyried y mater fel bod naw o'r deg Plentyn sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi troseddu yn y flwyddyn ddiwethaf yn ferched a chafwyd pob un yn euog o droseddau mewn sefydliadau preswyl. Roedd yr awdurdod wedi ystyried hyn trwy adolygu'i strategaeth comisiynu ac roedd y YOT yn gweithio gyda'r tim canfod lleoliadau i sicrhau lleoliadau addas. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi bod yn llwyddiannus nac wedi lleihau'r gyfradd troseddu.
- 3.29 Mewn YOTs ble roedd gan yr awdurdod lleol gartrefi plant ei hun, roedd gwaith yn cael ei wneud i gefnogi rheoli ymddygiad gan gynnwys staff y YOT yn gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol a staff gofal i fynd i'r afael â'r ymateb i emosiynau heb, er enghraifft, orfod ymatal y ferch. Fodd bynnag, ble roedd y merched wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal, nid oedd hyn mor llwyddiannus. Fe welsom rhai achosion o ferched a oedd wedi'i rhoi mewn gofal maeth. Tra bod gofalwyr yn trio'n galed i'w cefnogi, nid oedd yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a roddwyd ynghylch anghenion penodol merched sy'n troseddu, yn enwedig yn ymwneud ag ymddygiadau a allai ddynodi risg o gamfanteisio rhywiol, yn ddigonol i sicrhau sefydlogrwydd y lleoliad.

#### Esiampl o Arfer:

Roedd Lucy mewn gofal maeth, roedd hi'n agored i niwed oherwydd ei hoedran a'i hymddygiad gan gynnwys rhedeg i ffwrdd o gartref. Hysbyswyd ei bod ar goll ar nifer o adegau, gyda'r gofalwyr maeth a'r gweithiwr cymdeithasol yn ceisio gweithio gyda hi i ddarganfod beth oedd yn achosi iddi redeg i ffwrdd. Roedd tensiwn rhwng yr heddlu a gofal cymdeithasol i blant ynglŷn â'r ffordd orau o symud ymlaen a sut i'w hatal rhag mynd ar goll. Rhedodd Lucy i ffwrdd o adref eto a hysbyswyd yr heddlu ei bod ar goll. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, ffoniodd y rhieni maeth yr heddlu i roi gwybod iddynt bod Lucy wedi dychwelyd. Aeth yr heddlu i'r cartref maeth ac arestio Lucy am wastraffu amser yr heddlu.

#### Esiampl o Arfer:

Yn 14 mlwydd oed, roedd Liz wedi cael ei rhoi mewn sawl cartref gofal, roedd hi'n heriol i'r staff oherwydd nid oedd hi eisiau bod mewn gofal ac roedd yn gas ganddi ei bod wedi'i gwahanu o'i theulu. Roedd amheuaeth ei bod yn dioddef camfanteisio rhywiol. Roedd hi hefyd wedi rhedeg i ffwrdd o adref ar sawl achlysur. Wedi iddi dychwelyd i'r cartref, pan roedd hi wedi bod ar goll, gofynnodd y staff iddi am y ffôn symudol roedd ganddi, ond nad oedd ganddi ganiatâd i'w gael. Nid oedd Liz eisiau rhoi ei ffôn i'r staff. Fe redodd hi allan o'r cartref ac fe aeth y staff ar ei hôl hi oherwydd roeddent yn poeni am ei diogelwch. Cafodd ei dilyn gan nifer o staff a oedd mewn car. Pan ddalio nhw i fyny gyda hi fe redon nhw ar ei hôl hi ar droed a chafodd ei hatal gan dri aelod o staff yn gyhoeddus. Fe ymosododd Liz ar staff yn ystod yr ataliad a chafodd ei chyhuddo o ymosodiad cyffredin. Nid oedd cynlluniau bregusrwydd ac ymyrraeth ar gyfer Liz yn darparu unrhyw gyfarwyddyd ynghylch sut gallai cael ei hatal effeithio ar Liz a sut gallai hyn arwain at ymosodiadau ar staff.

## **Gwaith i atal merched rhag troseddu a mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol**

- 3.30 Mae cyfarwyddyd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid <sup>17</sup> ar ymdrin â phenderfyniadau'r llys am bobl ifanc, er nad yw'n benodol o ran rhyw, yn cefnogi asiantaethau wrth weithio gyda merched. Yng Nghymru a Lloegr, mae pobl ifanc sy'n cyflawni trosedd, sydd o ddirifoldeb isel, ac sydd wedi cael cyswllt blaenorol gyda'r heddlu neu gollfarnau blaenorol, yn cael eu cyfeirio at wasanaeth troseddau ieuencid am asesiad.
- 3.31 Fe welsom amrywiaeth o ymatebion i'r cyfarwyddyd ar draws y YOTs y bu i ni ymweld â hwy; y mwyaf datblygedig oedd Abertawe. Sefydlodd YOS Abertawe a Heddlu De Cymru Biwro Abertawe ym mis Mai 2008. Cyfeiriwyd pob person ifanc a arestwyd am droseddau o ddirifoldeb isel a chanolig <sup>18</sup>i'r YOS am asesiad yn hytrach na gwneud penderfyniad ar unwaith i rybuddio neu erlyn yn yr orsaf heddlu. Yn dilyn cyfnod asesu pythefnos o hyd, mynychodd y person ifanc a'i riant/gofalwr gyfarfod wedi'i gadeirio gan sarsiant a gyda heddwys y YOT hefyd yn bresennol. Cyn y cyfarfod ffurfiol yn y Biwro, roedd heddwys y YOT, y sarsiant a gwirfoddolwr gyda'r YOT wedi ystyried yr adroddiadau a ddarparwyd gan weithiwr y YOT ac wedi cytuno ar y canlyniad. Ymhlith yr opsiynau roedd penderfyniad cymodi ieuencid, rhybudd ieuencid gydag ymyrraeth wirfoddol neu rybudd amodol ieuencid gydag ymyrraeth orfodol. Roedd y Biwro yn destun gwerthusiad academaidd allanol gan Brifysgol Abertawe. Nodwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y sawl a oedd yn dod i mewn am y tro cyntaf (dros 60% rhwng y pedair blynedd 2008-2011).
- 3.32 Fe wnaethom asesu 15 achos atal a gynhaliwyd gan YOTs. Mewn saith o'r achosion hyn roedd y digwyddiadau cychwynnol wedi bod am drais, ond ar lefel isel iawn. Ymhlith y digwyddiadau eraill roedd dwyn o siopau ac achosi difrod mewn tref/canolfannau siopa. Roedd rhieni/gofalwyr ynghlwm â'r paratoad ar gyfer ymyriadau ac yn nifer o'r achosion fe welsom ymyriadau yn cael eu cyflwyno i gryfhau'r berthynas rhwng y ferch a'i rhieni/gofalwyr. Fe welsom ystod o ymatebion i fodloni anghenion posib y gallai arwain at droseddu, gyda'r mwyafrif yn addas. Roedd y rhain yn cynnwys penderfyniad i beidio â chynnwys yr YOT, a bod gwasanaethau plant yn ymateb i ferch sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi torri ffenest yn yr ysgol. Fe welsom hefyd ymyriadau i dargedu anghenion penodol iawn gan gynnwys nifer o achosion ble roedd merched wedi dwyn eitemau oherwydd pwysau gan gyfoedion. Roedd gwaith yn yr achosion hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu hunanhyder fel bod y merched yn adnabod bod ganddynt werth yn eu rhinwedd eu hunain ac nad oedd angen iddynt 'brofi' eu gwerth i gyfoedion trwy gyflawni troseddau.
- 3.33 Fe welsom union yr un ganran o achosion a oedd yn ymwneud ag alcohol mewn achosion atal ag a welsom yn yr achosion eraill yn ein sampl (27%). Roedd barn y merched wedi'i cynnwys mewn 60% o asesiadau.
- 3.34 Roedd asesiadau yn effeithiol yn asesu unrhyw risg o niwed ac wrth adnabod ffactorau a oedd yn debygol o gyfrannu at ymddygiad tramgwyddus. Yn yr achosion atal, fe welsom sylw da yn cael ei dalu i ganfyddiad y merched o'u hunain ac eraill, agweddau at droseddu, cymhellant i newid a meddwl ac ymddygiad. Y dull asesu a ddefnyddiwyd ar gyfer achosion atal yw Onset; mae'n wahanol o asesiad Ased oherwydd nid yw'n cynnwys iechyd emosiynol a meddyliol. Serch hynny, fe welsom, er bod problemau iechyd emosiynol gyda'r merched a oedd yn destun ymyriadau atal, yr adnabuwyd y rhain ac ymatebwyr iddynt.

## Casgliad

Roedd asesu a chynllunio'r risg o niwed yn gyffredinol yn effeithiol, er bod problemau mewn perthynas â rheoli ymddygiad merched o fewn gofal preswyl. Roedd staff yn cael trafferth yn corffori'r holl wybodaeth hysbys am y ffactorau gall arwain at droseddu (gan gynnwys pryderon

<sup>17</sup> Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Ebrill 2013 Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr  
<sup>18</sup>Canllawiau Diffiniol ar Ddedfrydu: Egwyddorion Trosfwaol – Ddedfrydu Pobl Ifanc 2009

iechyd) i mewn i'r asesiad mewn modd a oedd yn adlewyrchu materion rhyw. Effaith hyn yw bod merched ddim yn cael eu darparu'n gyson â gwasanaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad tramgwyddus.

Roedd yr ystod o ymyriadau ar gael i ferched yn amrywio o ran ansawdd ac roedd mynediad atynt yn anghyson. Er bod staff yn ymdrechu'n galed i ddiwallu anghenion merched, mewn rhai YOTs, nid oedd ymyriadau yn diwallu'u hanghenion ac roedd diffyg tystiolaeth o ran a oedd yr ymyriadau yn effeithiol. Roedd rhai nodweddion critigol yr oeddem yn gallu'u gweld a oedd yn gwneud rhaglenni ymyrraeth i ferched yn fwy tebygol o lwyddo. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod merched yn teimlo'n ddiogel yn gorfforol ac yn emosiynol er mwyn iddynt ymrwymo â'r rhaglen; datblygu ymagwedd yn seiliedig ar gryfderau a oedd yn gwahanu ymddygiad a'r person; cydnabod erledigaeth a thrawma roedd rhai o'r merched wedi dioddef yn flaenorol; ac yn olaf, codi disgwyliadau'r merched a'u helpu i weld eu bod yn gallu cymryd rheolaeth.

## 4. Cadw merched yn ddiogel

### Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r bregusrwydd penodol a wynebwr gan ferched sydd yn y system cyfiawnder troseddol a pha mor effeithiol mae YOTs wrth adnabod y problemau ac ymateb iddynt.

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd nifer o'r merched a arolygwyd gan y YOTs yn fregus iawn ac â nifer o anghenion lles. Roeddent yn peri anawsterau i'r asiantaethau hynny a oedd yn ceisio'u cadw'n ddiogel. Ni allai unrhyw asiantaeth unigol cadw'r merched yn ddiogel ar ei phen eu hun.
- Roedd bron hanner yr asesiadau o fregusrwydd yn brin o fanylion gyda nifer yn methu ag adnabod realiti bywyd dydd i ddydd y merched, gan gynnwys effaith perthnasau, alcohol a materion emosiynol ac iechyd meddwl.
- Roedd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn risg i ferched ym mhob YOT y bu i ni ymweld â hwy. Roedd yr ymateb gab y YOT a'r partneriaid yn amrywiol ac yn tueddu i ganolbwyntio ar broses yn hytrach na chamau uniongyrchol i amddiffyn neu leihau risgiau.
- Yn gyffredinol, roedd amrywiaeth eang yn nealltwriaeth ac ymatebion i fregusrwydd. Mewn rhai achosion roedd diffyg gwaith effeithiol ar y cyd i leihau a rheoli materion bregusrwydd.

### Asesiad o fregusrwydd

- 4.1 Mae bechgyn a merched yn gallu bod yn fregus oherwydd eu gweithredoedd eu hunain ac oherwydd gweithredoedd pobl eraill, boed y rheini'n oedolion neu'n blant. Mae rhyw, er enghraifft, canfyddiad merched o'u hunain a'u delwedd, yn gallu gwneud gwahaniaeth i fregusrwydd yn nhermau adnabod ffactorau risg a'r ymateb sydd ei angen i leihau'r bregusrwydd.
- 4.2 Mae cyfarwyddyd y YJB<sup>19</sup> ar gyfer dull asesu a sgrinio bregusrwydd Asset yn glir bod y sgrinio yn canolbwyntio ar y posibilrwydd o'r plentyn neu berson ifanc yn cael ei niweidio naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol. Nid yw'n asesiad llawn, ond y bwriad yw sbarduno ymchwiliad ehangach pan fo angen. Mae'n nodi pedair lefel o fregusrwydd (o isel i uchel iawn). Os yw plentyn neu berson ifanc yn cael ei asesu fel bod ar lefel ganolig neu uwch, yna dylid cwblhau cynllun rheoli bregusrwydd. Mewn 37 o'r 48 achos aseswyd gennym, fe wnaethom asesu bod y merched yn ganolig neu'n uwch. Roedd y YOTs wedi adnabod 34 achos.
- 4.3 Roedd nifer o'r merched wedi cael profiad o doriad mewn perthynas gyda rhieni/gofalwyr a brodyr neu chwiorydd, wedi gweld trais yn y cartref neu wedi bod yn ddioddefwyr o drais mewn perthynas. Pan archwiliom y cofnod o'r asesiad ar ddull asesu a sgrinio bregusrwydd Ased, fe nodom anghysondeb rhwng beth oedd yn cael ei gofnodi a beth roedd rheolwyr achos yn gwybod ac yn meddwl am yr achos. Yn aml roedd yn anodd gweld yn glir union natur y bregusrwydd wrth ddefnyddio'r dull sgrinio oherwydd ymddengys ei bod, ar gyfer anghenion merched, yn cyfyngu rheolwyr achos. Effaith hyn oedd bod cynlluniau i reoli bregusrwydd weithiau'n brin o gamau penodol i gadw'r merched yn ddiogel.

<sup>19</sup> Cyfarwyddyd Asset Cyhoeddwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Teuencid Cymru a Lloegr, ar gael ar <http://yjbpublications.justice.gov.uk/en-gb/Resources/Downloads/Asset.pdf>

- 4.4 Yn 77% o'r asesiadau bregusrwydd, fe welsom fod ystyriaeth yn cael ei roi i natur a lefel y ffactorau a allai wneud y ferch yn fregus, yn y gymuned neu oherwydd bod y ferch wedi mynd i mewn i'r ddalfa. Yn yr un ganran o achosion, fe welsom fod staff wedi ystyried materion yn ymwneud ag iechyd emosiynol a meddwl. Fodd bynnag, 50% yn unig o'r asesiadau oedd yn ystyried y risg o gamfanteisio rhywiol ac roedd 54% yn ystyried y potensial y byddai'r ferch yn ddiodefwr o drosedd. Roedd asesiad digonol o fregusrwydd sy'n gallu digwydd oherwydd perthnasau mewn 48% o achosion.

Esiampl o Arfer:

Derbyniodd Zoe, 16 mlwydd oed, orchymyn cyfeirio am drosedd o ddwyn o siop. Cafodd ei hasesu fel bod o fregusrwydd isel yn yr asesiad cychwynnol, er bod hi'n amlwg pan roedd hi wedi dwyn, roedd i gael arian i brynu alcohol a chyffuriau. Fe dorrodd y berthynas gyda'i mam i lawr, a dywedodd ei mam wrth y rheolwr achos nad oedd hi'n gallu cadw'i merch yn ddiogel a'i bod hi'n mynd allan gyda dynion mewn ceir. Symudodd ei mam o'r ardal ac o ganlyniad roedd Zoe'n digartref ac roedd hi'n aros gyda ffrindiau yn cysgu ar eu sofffa. Ni chafodd ei hamgylchiadau eu hadolygu i ystyried yr effaith ohoni'n yfed mewn pyliau, ei defnydd o sylweddau neu risg posib o gamfanteisio. Yn ddiweddarach beichiogodd Zoe ac nid oedd y rheolwr achos wedi adnabod sut roedd ffordd Zoe o fyw yn rhoi iechyd a lles hi ei hunan a'i phlentyn heb ei eni mewn peryg.

- 4.5 Ym mwyafrif y YOTs roedd gwaith i helpu merched adnabod eu bregusrwydd eu hunain yn amlwg. Roedd rhai YOTs yn cynnig rhaglenni penodol i edrych ar faterion gan gynnwys diogelwch mewn perthnasau a datblygu hunanhyder. Yn aml roedd merched angen lle diogel i siarad â rhywun byddai'n gwrandao arnynt. Roedd datblygu perthynas llawn ffydd gyda gweithiwr proffesiynol yn hanfodol er mwyn diogelu'r merched. Fe welsom nifer o esiamplau o sut roedd staff yn gweithio gyda'r merched i ddatblygu perthynas, gyda rhai yn cymryd amser. Roedd merched yn cael ychydig hyblygrwydd o ran pryd a ble roeddent yn gallu cael eu gweld, a sut gellid cadw cysylltiad gan gynnwys defnyddio negeseuon testun i wirio lles y merched neu i'w hatgoffa am apwyntiadau neu gyfarfodydd ffôn neu wyneb yn wyneb. Fe welsom fod merched yn aml yn cael eu gweld adref neu i ffwrdd o safle prif adeilad y YOT, gydag un eithriad o YOT a oedd eisiau i'r merched ddod i'r swyddfa.
- 4.6 Roedd gwaith gyda merched yn aml yn cael ei wneud yn unigol ac yn cynnwys y rheolwyr achos yn siarad â'r merched am y pethau sy'n bwysig iddynt. Roedd y merched y siaradom â hwy yn gwerthfawrogi hyn. Pan siaradom â'r rheolwyr achos ynglŷn â chynnwys y sesiynau dywedon nhw wrthym yn gyson eu bod yn ceisio datblygu a chynnal perthynas gyda'r ferch, i roi lle iddi ble roedd hi'n gallu siarad am ei theimladau ac emosiynau a ble fyddai hi'n teimlo'n ddiogel. Roedd y gwaith yma yn aml yn anweladwy ar gofnodion achosion, fodd bynnag, ac ni welsom lawer o gynlluniau gydag amcanion i ddatblygu perthynas gyda'r ferch.
- 4.7 Roedd adolygiadau o fregusrwydd yn ddigonol mewn dim ond ychydig dros 60% o achosion. Roedd pob YOT wedi sefydlu paneli rheolaeth i oruchwylio bregusrwydd, ond nid oedd y paneli hyn bob tro'n adnabod diffygion yn yr asesiad cychwynnol. Roedd hyn yn cynnwys achosion ble roedd gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg a oedd yn nodi bod y bregusrwydd wedi gwaethygu. Mewn rhai achosion roedd yn anodd gweld effaith y panel heblaw am fonitro'r achos a hefyd yn aml roedd diffyg eglurdeb o ran y trothwy i gyfeirio merched gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.
- 4.8 Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i waith gyda merched lwyddo, roedd angen i'r merched ymrwymo ac adeiladu perthnasau positif gyda rheolwyr achos. Fe ddarganfuom fod sylw wedi cael ei roi i natur perthnasau, a sut i'w hadeiladu, yng nghynlluniau yn Lambeth ac Abertawe.

## Bregusrwydd ac Alcohol

- 4.9 Un o'r materion roeddem eisiau ystyried oedd sut roedd y defnydd o alcohol yn cyfrannu at fregusrwydd. Fe ddarganfuom, mewn 67% o asesiadau a wnaethpwyd gan weithwyr achos y YOT, bod yr anawsterau mae merched yn gallu'u hwynebu pan o dan ddylanwad alcohol wedi cael eu hystyried yn effeithiol. Pan siaradom â rheolwyr YOT am broffil y defnydd o alcohol gyda merched, fe gawsom y neges gyson yn nodi ar gyfer merched a oedd wedi troseddu neu a oedd mewn peryg o droseddu, eu bod yn tueddu i ddefnyddio alcohol fel dull o ymdopi, rheoli neu ddelio â'u hemosiynau.
- 4.10 Roedd asesiadau yn tueddu i adnabod symiau a phatrymau yn ymwneud â'r defnydd o alcohol fel y disgrifiwyd iddynt gan ferched unigol. Prif effaith alcohol oedd nad oedd y merched yn gwneud penderfyniadau da pan o dan ddylanwad alcohol a bod hyn yn arwain atynt yn rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus. Roedd tueddiad i staff yn y YOTs weld y defnydd o alcohol fel problem iechyd yn hytrach na chyfraniad at droseddu a bregusrwydd. Fodd bynnag, mewn un ardal, roedd ymateb rhagweithiol wedi bod i'r mater hwn.

### Esiampl Arfer Da: Cadw merched yn ddiogel

Yn Sunderland roedd dau drais rhywiol wedi cael eu cyflawni yn erbyn menywod a oedd yn fregus oherwydd eu defnydd o alcohol. Yn dilyn adolygiad o'r achosion gan yr heddlu, rhoddwyd ystyriaeth i bwy allai fod wedi ymyrryd ac atal y troseddau rhag digwydd. O ganlyniad, rhoddwyd hyfforddiant i staff drysau a gyrwyr tacsï ar sut i adnabod a helpu dioddefwyr posib ac i adnabod troseddwy'r posib. Mae hefyd gan Sunderland uned triniaeth symudol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed trwy yfed yng nghanol y ddinas a threfnwyd 'bugeiliaid stryd' gyda chefnogaeth swyddog atal camfanteisio.

- 4.11 Yn gyffredinol, fe ddarganfuom nad oedd gweithwyr iechyd yn gwbl ymrwymedig mewn asesiadau am fregusrwydd er bod ganddynt y potensial i ddarparu mewnbyn sylweddol ar faterion megis iechyd corfforol a meddyliol blaenorol a chyfredol. Roedd asesiadau ar ddefnydd o alcohol a gofnodwyd yn tueddu i restru ystod ac amser y defnydd o alcohol er enghraifft *'Wedi yfed potel o fodca gyda chyfoedion yn ystod y nos'* yn hytrach na'r rhesymau dros yfed. Ni welsom lawer o asesiad o ganfyddiad y ferch o ddefnydd o alcohol. Yr eithriad i hyn oedd y gweithwyr iechyd yn Blackburn gyda Darwen, a gynhaliodd asesiadau iechyd helaeth a chofnodi canlyniad asesiadau yn syth i mewn yn y dull asesu.

### Esiampl Arfer Da: Bodloni anghenion iechyd

Roedd tîm iechyd YOT Blackburn gyda Darwen yn diwallu anghenion merched, yn bennaf oherwydd eu hymagwedd unigol a hyblyg i bob asesiad o achos ac ymyriadau. Roedd asesiadau da o iechyd cyffredinol yn cael eu gwneud gan weithwyr iechyd ac roedd y rhain yn cysylltu ag asesiadau Asset. Roedd gan weithwyr iechyd unig gyfrifoldeb dros asesu iechyd corfforol ac emosiynol, gan sicrhau bod anghenion y ferch yn cael eu hasesu gan ymarferwyr arbenigol. Ble nodwyd anghenion penodol roeddent yn cael eu cyfeirio ymlaen yn gyflym, gan wneud defnydd o berthnasau sefydledig. Roedd bregusrwydd yn elfen o bob asesiad iechyd. Yn ymarferol arweiniodd hyn at asesiad iechyd cyflawn ar gychwyn yr orchymyn, gyda staff y YOT yn cael budd o wybodaeth ddibynadwy a chyson er mwyn gwneud penderfyniadau.

## Bregusrwydd o ran dioddef camfanteisio rhywiol fel plant

- 4.12 Ym mhob un o'r YOTs yr ymwelom â hwy ar gyfer yr arolygiad, fe welsom achosion o ferched a oedd yn dioddef camfanteisio rhywiol, neu mewn peryg o hynny. Roedd gan bump o'r chwech YOT system glir i adnabod a chyfeirio achosion ble roeddent yn amau

bod merched yn dioddef camfanteisio rhywiol neu mewn peryg o hynny. Fe ddarganfuom ar gyfer rheolwyr achos y YOT, roedd adnabod camfanteisio rhywiol a bregusrwydd yn aml yn gymhleth ac yn anodd, ac roedd rhai yn trafferthu i ddeall effaith ymddygiad tramgwyddus merched a sut roedd hyn yn cael ei ddylanwadu gan beryglon camfanteisio rhywiol yn eu bywydau. Dangoswyd y diffyg hwn o ddealltwriaeth mewn un ardal ble roedd grŵp o ferched mewn peryg o gamfanteisio wedi'u gwahardd rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a fyddai wedi caniatáu iddynt deithio adref yn ddiogel. Mewn un ardal fe welsom arfer effeithiol iawn a oedd yn adnabod yr anhawster gyda merched yn gwneud datgeliadau ond nid oedd hyn yn arfer gyffredin.

Esiampl Arfer Da: Camau gan yr Heddlu i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant

Yn Leeds roedd cyfarfod wythnosol rhwng ditectif rhingyll, arweinydd Amddiffyn Plant a'r tîm camfanteisio rhywiol a chydlynedd ar goll o gartref a chamfanteisio rhywiol llawn amser a gyflogir gan y cyngor. Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd pob atgyfeiriad a chwblhawyd matrices asesu risg. Fe sbardunwyd cyfarfod strategaeth amlasiantaeth arall gan y cyfarfod ble rhoddwyd cynllun cychwynnol yn seiliedig ar y wybodaeth sylfaenol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys cynllun ymchwiliadol yr heddlu a chynllun gofal posib ar gyfer y dioddefwr. Roedd merched mewn perygl uchel o gamfanteisio hefyd yn destun cofnod gwybodaeth treigl a oedd yn hawdd mynd ato ac yn yr un lle. Roedd yr ymagwedd hon yn darparu opsiynau i atal gweithgaredd troseddol ac yn rhoi lle ac amser i'r merched ddatblygu ffydd a hyder er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel i wneud datgeliadau uniongyrchol.

- 4.13 Mewn rhai awdurdodau lleol, roedd systemau cymhleth wedi cael eu datblygu i reoli'r risg o gamfanteisio rhywiol ond roedd hyn yn aml yn arwain at ganolbwyntio ar brosesau yn hytrach na sicrhau bod bregusrwydd yn cael ei reoli a'i fonitro'n gywir. Mewn un ardal, fe nodom o leiaf bedwar cyfarfod gwahanol y gellid eu cynnal i drafod pryderon. Roedd staff yn yr ardal yma'n ddryslyd o ran pa lwybr i'w gymryd i fynegi pryderon am les y merched a soniodd rhai gweithwyr arbenigol camfanteisio'n rhywiol ar blant bod angen iddynt dreulio gymaint o amser mewn cyfarfodydd amlasiantaeth fod ganddynt ddim amser i weithio'n uniongyrchol gyda'r merched mewn perygl.
- 4.14 Roedd yn bryder bod rheolwyr achos YOT mewn dwy ardal yn adnabod y dangosyddion ac yn amau bod y merched mewn perygl, ond heb gefnogaeth addas o'r heddlu a rheolwyr gofal cymdeithasol a'r YOT, ni weithredwyd yn effeithiol. Yn y ddwy ardal hyn, ymddengys mai'r rhwystr i ymateb oedd yr angen i'r merched ddatgelu'r gamdriniaeth, cyn gellir gweithredu. Mewn ardal arall, roedd adnabod camfanteisio rhywiol ac ymateb iddo hefyd yn annigonol. Roedd prosesau i alluogi i'r heddlu ac asiantaethau amrywiol reoli'r sawl a oedd yn destun, neu mewn perygl o, camfanteisio rhywiol yn cynnwys dulliau atgyfeirio a oedd yn aneffeithiol wrth fynd i'r afael â'r broblem.
- 4.15 Ym mhob ardal a arolygwyd, roedd gwasanaethau i gefnogi merched a oedd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol fel arfer yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector<sup>20</sup>. Roedd y perthnasau gweithio gyda YOTs yn amrywio ac mewn rhai ardaloedd nid oedd y YOT yn gwybod gyda pha ferched roedd y gwasanaeth cefnogi yn gweithio, neu beth i'w wneud i gefnogi'r ymyrraeth arbenigol yma. Roedd y canlyniadau i'r merched yn dilyn y gweithio yma ar y cyd yn amrywio, ond roedd yn addawol gweld bod rhai gwasanaethau cefnogi da i ferched; fodd bynnag, mae angen eu hintegreiddio'n well gyda'r YOTs er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rannu i gynorthwyo gyda'r gwaith uniongyrchol ac amddiffyn y merched.

<sup>20</sup> Mae sefydliad yn y trydydd sector yn golygu un sydd naill ai'n cael ei redeg gan elusen neu ar sail wirfoddol yn hytrach na gwasanaeth statudol.



Esiampl o Arfer: Cefnogi dioddefwyr a dioddefwyr posib o gamfanteisio rhywiol

Tîm amlasiantaeth yw Engage! Sy'n cynnwys sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu diogelu pobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol yn Blackburn gyda Darwen. Mae' gwaith y tîm yn cynnwys cynllunio ar gyfer, ac ymateb i, bregusrwydd y merched at gamfanteisio rhywiol. Cyflawnwyd hyn trwy atal ymglymiad y merched, amddiffyn dioddefwyr ac erlyn troseddwy. Roedd y tîm wedi'i leoli mewn canolfan gymunedol ddiennw. Doedd dim rhestr aros a oedd yn syndod. Roedd plant yn cael eu cefnogi gan weithiwr arbenigol, yn cael asesiad iechyd gan y nyrs arbenigol ac yn cael cefnogaeth tyst yn ystod unrhyw achos llys.

## Casgliad

Roedd cydadwaith cymhleth rhwng troseddu a bregusrwydd yn yr ystyr bod rhai merched wedi troseddu oherwydd eu bod yn fregus a bod eraill yn dod yn fregus oherwydd eu bod yn troseddu. Er mwyn diogelu merched roedd angen i staff y YOT adnabod pa ffactorau oedd yn bodoli yn ymwneud â bregusrwydd. Roedd casglu gwybodaeth o asiantaethau eraill a'r merched eu hunain yn allweddol er mwyn llunio safbwynt gwybodus am amgylchiadau merched unigol, er mwyn gallu adnabod union natur a lefel y bregusrwydd. Heb weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, ni ellir diogelu ac amddiffyn y merched yn effeithiol rhag camdriniaeth. Ar gyfer gormod o ferched, yn y sampl achos, roedd asesiadau yn nodi rhai ffactorau, ond nid pob un, y gallai achosi niwed i'r merched hyn. Heb wybod cymaint o'r darlun â phosib, roedd yn anodd llunio cynlluniau ystyrlon.

Roedd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn beryg mawr i ferched ym mhob YOT y bu i ni ymweld â hwy. Roedd camau a gymerwyd i adnabod, ymateb i, a gweithredu ar bryderon yn ymwneud â chamfanteisio rhywiol yn amrywio'n fawr. Fe welsom waith effeithiol iawn ond fe welsom ardaloedd hefyd ble roedd y gwaith yma megis dechrau a ble nad oedd merched yn cael eu hamddiffyn. Nid oedd y cysylltiadau rhwng ymddygiad tramgwyddus a chamfanteisio rhywiol bob tro'n cael eu hystyried yn gywir, yn enwedig gan rai asiantaethau partner. Yn elfennol, nid oedd bod yn hysbys i YOT yn awtomatig yn golygu byddai bregusrwydd at gamfanteisio rhywiol yn cael ei ystyried neu ei adnabod neu y byddai merched yn cael eu hamddiffyn, hyd yn oed pan roedd cysylltiad uniongyrchol â'r ymddygiad tramgwyddus.

## 5. Profiadau merched yn y ddalffa

### Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu barn a phrofiadau 20 merch yn y ddalffa mewn Cartrefi Diogel i Blant (SCHs) a Chanolfannau Hyfforddiant Diogel (STCs) a gafwyd trwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb a chyfweiliadau gyda staff perthnasol.

### Canfyddiadau allweddol

- Nid oedd cysylltiadau gyda gweithwyr cymdeithasol a pherthnasau gyda gweithwyr YOT yn y gymuned bob tro'n cael eu cynnal.
- Soniodd y merched am berthnasau da gyda staff a bod gwaith gweithwyr allweddol yn y ddalffa yn help iddynt.
- Roedd mwyafrif y merched yn teimlo'n ddiogel.
- Roedd gwaith i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol wrthi'n cael ei ddatblygu.
- Roedd gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus yn aml ddim yn cael ei adnabod fel gwaith o'r fath gan ferched.

### Merched yn y ddalffa

- 5.1 Fel rhan o'r arolygiad roeddem eisiau canfod canfyddiadau merched o fywyd yn y ddalffa ac o oeddent yn cael eu cefnogi i leihau'u haildroseddu ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Fe gyfwelom ag 20 merch yn STCs Medway a Hassockfield a SCHs Vinney Green, Redbank a Swanwick Lodge. Cafodd y gwaith mewn STCs ei wneud gan ymchwilyr Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a gan arolygwyr Ofsted yn yr SCHs.
- 5.2 Mae tri math o sefydliadau gwarchodol ar gyfer plant a phobl ifanc: Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc; Cartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddiant Diogel. Mae'r YJB yn penderfynu i ba le diogel bydd plentyn yn mynd, yn dibynnu ar bwy all fynd i'r afael ag anghenion y plentyn neu berson ifanc yn ddiogel (er enghraifft os oes ganddynt broblem iechyd), addasrwydd ar gyfer eu hoedran, rhyw a chefnidir ac agosatrwydd at gartref y plentyn neu berson ifanc. Yn 2012, fe gyhoeddodd y YJB gynllun<sup>21</sup> i ddatblygu'r ystad ddiogel ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd y cynllun yn ymateb i anghenion penodol merched, gan adnabod eu profiadau blaenorol o drais a chamdriniaeth a lefelau uwch o iselder a materion iechyd meddwl. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar sicrhau bod comisiynu gwasanaethau yn diwallu anghenion penodol. Nid yw merched bellach yn cael eu hanfon i Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc ac yn hytrach maen nhw'n cael eu rhoi mewn Cartrefi Diogel i Blant neu tri o'r pedwar Canolfan Hyfforddiant Diogel. Dylid nodi, er bod merched yn cael eu lletya yn eu hunedau eu hunain, maen nhw'n cymysgu gyda bechgyn yn ystod sesiynau addysg a rhai gweithgareddau eraill.
- 5.3 Mae pob Cartref Diogel i Blant yn cael ei redeg gan adran gwasanaethau plant yr awdurdod lleol a'u goruchwyllo gan yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg yn Lloegr ac, yng Nghymru, gan Wasanaethau Cymdeithasol Cymru. O'r tri math o sefydliad, Cartrefi Diogel i Blant sydd â'r gyfradd uchaf o staff i blant, ac maen nhw'n gyffredinol yn llai, yn amrywio mewn maint o 6 i 40 gwely. Fe'u defnyddir fel arfer i letya plant iau (y sawl rhwng 12 a 14 mlwydd oed), yn ogystal â merched hyd at 16 mlwydd oed, a bechgyn 15 i 16 mlwydd oed y'u hasesir fel bod angen gofal ychwanegol.

<sup>21</sup> Y Bwrdd Cyfiawnder Teuencid (2012) *Datblygu Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr, Cynlluniau hyd at 2015*, Llundain.

- 5.4 Canolfannau pwrpasol yw Canolfannau Hyfforddiant Diogel ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed. Mae nhw'n cael eu rhedeg gan weithredwyr preifat o dan gytundebau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n amlinellu sut dylid rhedeg y canolfannau. Mae pedwar STC yn Lloegr: y gyfradd arferol mewn STC yw tri staff i wyth o blant.
- 5.5 Mae merched yn cyfri am 5% yn unig o'r boblogaeth ieuenctid yn y ddalfa. Yn ein sampl fe gyfwelom â 12 merch Wyn Brydeinig neu Wyn arall, 3 merch Ddu Brydeinig, 2 merch o hil gymysg, ac 1 ferch Asiaidd, 1 Arabaidd a 1 Roma. Fe ofynnem i'r merched a oedd ganddynt anabledd, dywedodd pedair bod un ganddynt, gan gynnwys anhwylder personoliaeth ac anawsterau llythrennedd.
- 5.6 Dylid hefyd nodi pan fod plentyn neu berson ifanc yn dod i mewn i'r ddalfa ar remand, maen nhw'n cael eu pennu fel Plentyn sy'n Derbyng Gofal dan ofalaeth yr awdurdod lleol<sup>22</sup>.

## Beth welsom ni

- 5.7 Mae anghenion cymhleth gan ferched mewn Cartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddiant Diogel. Roedd y sawl mewn STCs yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y ddalfa o'r blaen (Roedd 6 o'r 7 merch a ddywedodd hyn mewn STC) ac yn dweud eu bod wedi bod mewn gofal (8 o'r 11 merch a ddywedodd eu bod wedi treulio amser mewn gofal).
- 5.8 Roedd mwyafrif y merched â dedfryd y siaradom â hwy i fod i gael eu rhyddhau o fewn y misoedd nesaf; ond roedd dwy nad oeddent yn gwybod pryd roeddent i fod i gael eu rhyddhau.
- 5.9 Fe ofynnem i'r merched am eu cyswllt gyda'u gweithiwr cymdeithasol. Roedd hanner yr wyth merch a oedd yn Derbyng Gofal ar hyn o bryd cyn dedfrydu wedi gweld eu gweithiwr cymdeithasol ers bod yn y ddalfa. Dywedodd staff wrthym fod adolygiadau o Blant sy'n Derbyng Gofal fel arfer yn digwydd ond bod presenoldeb gweithiwr cymdeithasol yng nghyfarfodydd cynllun hyfforddi yn amrywio gyda phob gweithiwr cymdeithasol. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cadw cyfrifoldeb dros blant a phobl ifanc pan maen nhw'n mynd i'r ddalfa a dylid gweithio gyda staff y YOT i gynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau: pedair o'r merched yn unig ddywedodd bod eu gweithiwr cymdeithasol yn gynorthwyol. Dywedodd un bod ei hachos wedi cael ei 'chau' gan ei bod hyn yn y ddalfa a dywedodd wrthym roedd yn *"ymddangos fel bod gwell ganddi bo fi mewn fan hyn"*. Dywedodd un arall bod ei hachos wedi cael ei chau oherwydd y byddai hi'n 18 mlwydd oed pan fyddai'n cael ei rhyddhau. Dywedodd un ferch bod ei hadolygiad wedi cael ei ganslo ac roedd hyn wedi ei chythruddo oherwydd doedd hi ddim yn gwybod beth roedd yn mynd i ddigwydd iddi pan fyddai'n cael ei rhyddhau. Nid oedd y gefnogaeth a'r amddiffyniad a fwriedir trwy gael eu pennu fel Plentyn sy'n Derbyng Gofal wedi sicrhau bod cynllunio cadarn ar gyfer rhai merched mewn paratoad i'w rhyddhau o'r awdurdod lleol. Roedd hwn yn fwch difrifol ac nid yw'n cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gan awdurdodau lleol ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal sy'n dod i mewn i'r ddalfa.
- 5.10 Ers dod i mewn i'r ddalfa, dywedodd 19 o'r 20 merch eu bod wedi gweld gweithiwr YOT o leiaf unwaith (dim ond yn ddiweddar oedd yr un a oedd heb weld gweithiwr wedi cael ei hanfon i'r ddalfa) a soniodd y staff am fynychiad da gan weithwyr y YOT mewn adolygiadau cynllunio hyfforddiant. Fodd bynnag, soniodd rhai merched am broblemau wrth geisio cysylltu â'i gweithiwr YOT ar y ffôn. O fewn STCs dywedodd hanner o'r merched bod ganddynt berthynas bositif gyda gweithwyr a bod hyn yn ddefnyddiol. Soniodd merched mewn SCHs am broblemau yn ymwneud â diffyg cyswllt a ddim yn gweld yr un gweithiwr YOT. Mewn dau achos dywedodd y merched nad oeddent yn teimlo eu bod wedi gallu adeiladu perthynas gyda'r gweithiwr YOT, sydd yn gyferbyniad

<sup>22</sup> Adran 104, *Deddf Cymorth Cyfreithiol a Chosbi Troseddwyr 2012*  
[www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/section/104/enacted](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/section/104/enacted)

i'r perthnasau da a oedd gan nifer o ferched yn y gymuned. Fel yn yr achosion cymunedol, fe welsom fod natur y berthynas gyda gweithwyr YOT yn gallu bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y darperir yr ymyriadau cywir o ran ymddygiad tramgwyddus ynghyd â chefnogaeth ar ôl cael eu rhyddhau, ond yn gyffredinol nid oedd y rhain yn cael eu datblygu'n ddigon da gyda'r merched yn y ddalfa.

5.11 Roedd perthnasau gyda staff yn gyffredinol yn dda ac roedd staff yn adnabod pwysigrwydd adeiladu ffydd a threulio mwy o amser gyda'r merched i gyflawni hyn. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn gymwys i weithio gyda merched ac i fod yn ymwybodol o'u hanghenion a'r ymagwedd wahanol a oedd ei hangen. Roedd hyn yn cynnwys lefelau uwch o hunan-niwed ac anghenion iechyd meddwl ymhlith merched; bod adeiladu ffydd/perthynas yn bwysig; a bod y math o fwlio a allai fod yn bresennol yn wahanol i sefydliad i fechgyn. Roedd ystyriaeth hefyd i'r pwysigrwydd o sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith y staff ar unedau preswyl ynghyd ag ymdrechion i wneud unedau yn fwy cartrefol.

5.12 Dywedodd mwyafrif y merched bod ganddynt weithiwr allweddol o fewn y sefydliad a'u bod yn eu gweld yn rheolaidd. Roedd y merched yn teimlo bod y gweithwyr allweddol yn arbennig o gymorth wrth ddatrys materion ymarferol er enghraifft ychwanegu rhifau ffôn i restrau ffôn, ac wrth gysylltu â gweithwyr wedi'u lleoli yn y gymuned. Dyma beth ddywedodd un ferch mewn Cartref Diogel i Blant am ei gweithiwr allweddol:

*"Maen nhw'n wych – maen nhw wir wedi bod yn dda oherwydd maen nhw'n gwrando arnat ti ac yn dy helpu i ddatrys dy broblemau."*

5.13 Er bod cynlluniau hyfforddiant yn bodoli, dim ond ychydig llai na hanner y merched dywedodd bod ganddynt gynllun hyfforddiant a'u bod yn gwybod beth oedd eu targedau. Roedd y merched wedi teimlo'n rhan o ddatblygu'r cynllun. Fodd bynnag, dywedodd gweddill y merched eu bod ddim yn gwybod pa gynlluniau oedd yn bodoli neu'n cael eu datblygu ar eu cyfer.

5.14 Yn y ddalfa, roedd pedair o'r pum merch wedi teimlo'n anniogel, cadarnhaol oedd nodi bod pob un ohonynt wedi gallu dweud wrth rywun am hyn, a dywedodd tair ohonynt fod pethau wedi gwella o ganlyniad. Ymddengys bod dulliau diogelu yn gadarn ac roedd gwaith amlddisgyblaethol da gyda'r merched a oedd yn cynnwys ymglymiad teuluol. Soniodd y staff hefyd bod ganddynt gysylltiadau da gydag awdurdodau lleol gosod a YOTs. Roedd gan Gartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddiant Diogel gysylltiadau gyda sefydliad elusennol neu drydydd sector i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol. Roedd hyn yn bositif ond yn ymddangos fel maes a oedd wrthi'n cael ei ddatblygu.

5.15 Gofynnwyd i'r merched a oedd angen cymorth arnynt i gadw'n iach, dywedodd saith merch yn yr STCs bod angen cymorth arnynt. Sonion nhw eu bod wedi dioddef oedi cyn gallu gweld meddyg. Yn benodol, roedd un ferch yn teimlo nad oedd hi'n cael y cymorth roedd hi ei angen am gyflwr meddygol.

5.16 Gofynnwyd i'r merched a oedd ganddynt unrhyw anghenion emosiynol neu iechyd meddwl, gyda chwech yn nodi bod ganddynt. Roedd y rhain yn cynnwys anhwylder personoliaeth, iselder ac anhwylder straen wedi trawma. Dywedodd tair merch eu bod yn gallu gweld seiciatrydd o fewn y sefydliad gwarchodol, ond nid oedd y tair merch arall soniodd am broblemau yn teimlo eu bod yn derbyn y cymorth roeddent ei angen. Ar gyfer un ferch, fe ddylai bod hi wedi gweld y tîm iechyd meddwl yn y gymuned, ond unwaith iddi fynd i mewn i'r ddalfa, nid oedd wedi gweld unrhyw un, ac nid oedd yn gwybod pa drefniadau oedd yn bodoli ar eu cyfer.

5.17 Dywedodd ychydig dros hanner y merched y cyfwelwyd â hwy bod ganddynt broblemau gyda chyffuriau ac alcohol pan gyrhaeddodd nhw yn y ddalfa. Cyflawnodd un ferch

drosedd o gyflenwi cyffuriau a dywedodd un arall ei bod yn troseddu i ariannu'i defnydd o gyffuriau. Roedd y merched eraill yn cysylltu'u troseddu gyda pheidio â meddwl yn glir oherwydd eu bod "*wedi meddwi'n racs*". Fe asesom fod gan 11 o'r merched cyswllt rhwng camddefnyddio sylweddau a throseddu tra bod 7 wedi dweud eu bod wedi derbyn cymorth ac ymyrraeth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddol.

- 5.18 Ymhlith y rhesymau eraill nodwyd gan ferched am droseddu roedd "*Mae e jyst yn digwydd*". Roedd hyn yn gysylltiedig ag yfed, dicter a diffyg arian. Yn y Cartrefi Diogel i Blant, roedd y merched yn tueddu i fod y rhai ifancach ac wedi'u treiddio llai yn y system cyfiawnder troseddol; dywedodd saith eu bod wedi cwmpo i mewn i'r grŵp anghywir, roedd hyn yn cynnwys bod mewn gang a dod yn ffrindiau gyda rhywun a oedd yn troseddu. Roedd hyn yn debyg i'r materion yn y gymuned ble roedd pwysau gan gyfoedion a pherthnasu yn aml yn gysylltiedig â throseddu.
- 5.19 O'r merched soniodd am broblemau gyda chamddefnyddio sylweddau, dywedodd pump eu bod wedi derbyn cymorth a'i gael yn ddefnyddiol, roeddent wedi gwneud sesiynau grŵp a gwaith unigol. Dywedodd un ferch gyda phroblem alcohol ei bod wedi derbyn cymorth ond nid oedd yn ddefnyddiol oherwydd roedd yn ymwneud ag addysg yn hytrach na thriniaeth ac nid oedd wedi mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros ddefnyddio alcohol. Nododd y byddai'n dal ganddi broblem pan fyddai'n cael ei rhyddhau. Dywedodd un ferch bod ei throseddu oherwydd pethau a oedd yn digwydd adref a'i bod hi'n defnyddio alcohol i anghofio ac yn tramgwyddo i gael hwyl. Mae hyn yn debyg i'n canfyddiadau yn y gymuned bod merched yn aml yn defnyddio alcohol fel modd o ymdopi, er nad oedd hyn yn briodol.
- 5.20 Disgrifiodd nifer o'r merched cael anawsterau gydag addysg cyn iddynt fynd i mewn i'r ddalfa. Roedd mynediad at addysg yn gwella'n sylweddol yn y ddalfa gyda 18 o'r merched yn nodi eu bod yn mynychu rhyw fath o addysg neu hyfforddiant. Roedd un ferch yn gwneud cwrs campfa ac roedd wedi gallu mynd i gampfa yn y gymuned ac roedd wedi cyflawni NVQ Lefel 2. roedd hwn yn gam cadarnhaol tuag at adsefydlu a'i rhyddhau yn y pen draw.
- 5.21 Roeddem â diddordeb i wybod pa waith oedd yn cael ei wneud i leihau ymddygiad tramgwyddus. Roedd gan y merched fynediad at yr un ymyriadau â bechgyn – dywedodd staff y ddalfa wrthym fod yr holl waith gyda phobl ifanc wedi'i deilwra i'r unigolyn felly roedd yn teimlo y byddai anghenion rhyw yn cael eu nodi a'r diwallu yn y modd hwnnw. Darparwyd gwaith ymyriadau ar ffurf rhaglenni, gwaith grŵp neu waith unigol. Er bod sesiynau penodol wedi cael eu cynnal ar ymddygiad tramgwyddus, nid oedd y rhain bob tro'n cael eu cydnabod fel sesiynau o'r fath gan y merched eu hunain. Dim ond wyth o'r merched nododd eu bod wedi gwneud gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus. Roedd hyn yn bennaf yn cael ei gofnodi fel gwaith unigol gyda'u gweithwyr allweddol. Nid oedd yn syndod na fod y merched yn gallu cysylltu'r gweithgareddau roeddent yn eu gwneud â gwaith ymddygiad tramgwyddus, o ystyried eu diffyg dywededig o'u cynlluniau hyfforddi.
- 5.22 Roedd mwyafrif y gweithgareddau yn cael eu mynychu gan fechgyn a merched, er bod esiamplau o weithgareddau wedi'u teilwra neu'n benodol ar gyfer merched. Dywedodd hanner y merched y siaradom â hwy bod yna weithgareddau roeddent yn eu cael yn ddefnyddiol, a rhoddwyd esiamplau o gyrsiau gwallt a harddwch, tra bod y gweddill wedi dweud bod gweithgareddau chwaraeon i ferched eu mynychu. Dywedodd y merched eu bod yn cael yr hyfforddiant galwedigaethol fwyaf defnyddiol ac roeddent yn meddwl y byddai hyn yn eu helpu i ennill cymwysterau a gwella'u cyflogadwyedd ar ôl rhyddhau.
- 5.23 Pan ofynnwyd a oeddent yn meddwl eu bod yn llai tebygol o droseddu a beth, os unrhyw beth, oedd wedi gwneud gwahaniaeth, dim ond un ferch oedd yn gallu disgrifio'n glir sut

roedd gwaith a wnaethpwyd yn y ddalfa wedi effeithio ar ei ffordd o feddwl a pham roedd hi wedi troseddu. Dywedodd merched eraill bod y profiad o fod yn y ddalfa wedi gweithredu fel ataliad a'u bod ddim eisiau mynd yn ôl i'r ddalfa.

- 5.24 Roedd y merched yn glir iawn am y problemau y byddent yn eu cael ar ôl rhyddhau y byddent angen cymorth gyda. Sef: llety i bedair merch; ETE i saith merch; roedd anawsterau gyda chyfoedion yn broblem i ddwy ferch, a dywedodd un ferch y byddai'n cael problemau gydag alcohol.
- 5.25 Doedd dim cyfeiriad strategol na pholisïau yn ymwneud yn benodol â merched yn y sefydliadau yr ymwelom â hwy. Roedd rhai asesiadau effaith cydraddoldeb wedi cael eu cynnal ar bolisïau a oedd yn ystyried rhyw. Mae'n anodd asesu sut roedd gwaith sensitif i ryw yn cael ei hyrwyddo, ei gefnogi neu ei werthuso heb fframwaith polisi.

## Casgliad

Fel yn y gymuned mae profiadau merched yn y ddalfa yn amrywio, ond roedd mynediad at addysg a hyfforddiant wedi gwella ar gyfer nifer o'r merched. Roedd gan y merched anghenion cymhleth, ond nid oedd cynllunio i wneud gwaith i fynd i'r afael ag anghenion yn ymwneud â throseddu yn glir i'r merched ar bob adeg.

Nid oedd cysylltiadau gyda gweithwyr yn y gymuned bob tro'n cael eu cynnal ac roedd y merched yn cael rhai anawsterau yn sefydlu a chynnal perthnasau gyda hwy. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd, oherwydd roedd y cyfnod yn y ddalfa wedi darparu cyfle i adlewyrchu ar eu gallu i lunio perthnasau y gellid manteisio arnynt ar ôl rhyddhau er mwyn cefnogi adsefydlu, ac roedd yn tanseilio'r cynnydd y gallai'r merched fod wedi gwneud yn y ddalfa.

## 6. A wnaeth y gwaith gyda merched wahaniaeth?

### Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r canlyniadau ar gyfer y merched yn y sampl achos a reolwyd yn y gymuned gan YOTs.

### Prif ganfyddiadau

- Doedd dim llawer o ddefnydd o ddata a gwybodaeth i olrhain canlyniadau i ferched.
- Roedd merched yn cael gwell canlyniadau os oedd eu hanghenion wedi cael eu hasesu'n gywir a'u bod wedi derbyn y gefnogaeth gywir a oedd wedi'i haddasu ar gyfer anghenion penodol merched mewn awyrgylch wrywaidd yn bennaf.
- Roedd amllder a difrifoldeb y troseddu wedi gostwng ym mwyafrif yr achosion.
- Yn y sampl, roedd merched a oedd wedi aildroseddu yn fwy tebygol o fod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal.
- Roedd rhai ffactorau yn ymwneud â throseddu wedi cael eu hymdrin ag yn llwyddiannus.
- Roedd rhai problemau mwy sylfaenol yn parhau.
- Roedd cydymffurfiaeth â gorchmynion llys yn dda.
- Nid oedd pob merch wedi cael ei hamddiffyn.
- Roedd angen adnabod sut gellid cefnogi rhai merched unwaith i'w cyswllt gyda'r YOT ddod i ben.

### Beth welsom ni

- 6.1 Roedd nifer o bethau'n gwneud hi'n anodd i YOTs a'u hasiantaethau partner fesur llwyddiant gyda merched. Nid oedd llawer o ddefnydd o ddata neu werthusiad o ganlyniadau gwasanaethau i adnabod rhinweddau tebyg a gwahanol mewn canlyniadau rhwng merched a bechgyn, ac o ganlyniad roedd rhai rheolwr YOT nad oeddent yn gwybod os oedd merched yn gwneud yn well neu'n waeth na bechgyn. Roedd ffactor arall yn deillio o ddiffyg amcanion a thargedau penodol yn rhai o'r cynlluniau welsom ni; roedd mesur cynnydd gwirioneddol yn eu herbyn yn anodd iawn pan roedd cynlluniau cychwynnol yn amhenodol ynghylch amcanion arfaethedig y gwaith. Mewn rhai achosion roedd yn bosib dweud a oedd y broses wedi cael ei ddilyn yn unig, er enghraifft os oedd cyfeiriad wedi cael ei wneud neu os oedd grŵp wedi cael ei fynychu.
- 6.2 Ar ben hyn, roedd staff yn cael trafferth i ddod o hyd i ddull syml i adlewyrchu mewn cynlluniau a chofnodion rhai o'r canlyniadau pwysicaf ond mwy cyffredinol megis, gwella hunanhyder, cynyddu hyder, gwell dealltwriaeth o sut i reoli emosiynau a datblygu perthnasau priodol llawn ffydd.
- 6.3 Fe ddarganfuom, yn yr achosion yr aseswyd gennym ble roedd ystyriaeth a sylw i anghenion penodol y merched, roedd y canlyniadau yn tueddu i fod yn well mewn perthynas â rheoli'r risg o niwed i ddiodefwr, wrth leihau bregusrwydd ac yn amllder a difrifoldeb yr aildroseddu.
- 6.4 Yn hanner ein sampl achos roeddem yn gallu barnu a oedd unrhyw newidiadau wedi bod gyda throseddu. Yn 16 o'r 26 achos perthnasol fe welsom ostyngiad yn amllder yr aildroseddu (62%) a gostyngiad yn nifrifoldeb mewn 16 o 23 achos perthnasol (70%). Yn

yr achosion eraill nid oedd yn bosib cyrraedd barn ar hyn oherwydd natur yr achosion (ataliad neu droseddau cyntaf).

- 6.5 Fe ddarganfuom y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol gydag aildroseddu rhwng y merched hynny a oedd yn Derbyn Gofal ai peidio. Fe wnaethom asesu os oedd gostyngiad wedi bod ers cychwyn y ddedfryd yn amllder y troseddu. Ar gyfer merched nad oedd yn Derbyn Gofal y ffigwr oedd 62% ond ar gyfer merched a oedd yn Derbyn Gofal, y ffigwr oedd 38%. Fe asesom hefyd bod gostyngiad wedi bod yn nifrifoldeb y troseddu. Ar gyfer merched nad oedd yn Derbyn Gofal y ffigwr oedd 91% ond ar gyfer merched a oedd yn Derbyn Gofal y ffigwr oedd 50%.
- 6.6 Fe wnaethom asesu pa gynnydd oedd wedi cael ei wneud, ble fo angen, mewn perthynas â ffactorau unigol allweddol a oedd yn gwneud merch yn fwy tebygol o aildroseddu. Mewn achosion ble roedd ei angen, fe welsom welliannau yn ETE, meddwl ac ymddwyn, agweddau at droseddu, ac ysgogiad i newid. Roedd hyn yn adlewyrchu'r gwaith a welsom mewn nifer o ardaloedd i gefnogi merched i fynychu ysgol, addysg neu hyfforddiant. Roedd hyn hefyd yn adlewyrchu'r gwaith a wnaethpwyd gan reolwyr achos yn eu gwaith uniongyrchol gyda'r merched. Roedd ymyrraeth yn y meysydd hyn yn aml yn seiliedig ar drafodaethau a myfyrio, ac roedd y merched yn ymateb i'r ymagwedd hon.
- 6.7 Fe welsom achosion ble roeddem yn gallu gweld gwell perthnasau gyda rhieni/gofalwyr, merched yn gwneud gwell dewisiadau o ran pwy oeddent yn eu cyfri fel ffrindiau ac mewn nifer o achosion roedd y merched yn gallu ymwneud yn well â gweithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys gofal cymdeithasol.
- 6.8 Fe welsom y cynnydd lleiaf mewn camddefnyddio sylweddau, perthnasau teuluol a phersonol a threfniadau byw. Roedd hyn yn aml yn ymwneud â natur y materion hyn, ac roedd gan nifer o ferched hanes hirsefydlog o berthynas anodd gyda'u teuluoedd ac roedd rhai wedi troi at gamddefnyddio sylweddau fel modd anaddas o ymdopi â'u hemosiynau. Roedd y meysydd hyn yn gysylltiedig â'i gilydd i nifer o ferched ac nid yw'n syndod bod hi'n anodd cael effaith ar y meysydd hyn.

Esiampl Arfer Da: Osgoi erlyn a lleihau'r defnydd o'r ddalfa

Roedd YOS Abertawe wedi datblygu math o waith: un i atal merched rhag dod i mewn i'r system ac ail fath i leihau cyfraddau aildroseddu a stopio merched rhag mynd i'r ddalfa. Er mwyn atal merched rhag cael eu herlyn, fe aethant trwy system ble roedd y ffactorau a gyfrannodd ar droseddu yn cael eu hadnabod, yna roedd y merched yn cael cynnig ystod o gefnogaeth addas i ddiwallu'u hanghenion fel dewis amgen i erlyniad. Roedd rhieni/gofalwyr yn rhan o'r broses hon er mwyn iddynt allu cadw cyfrifoldeb dros eu plentyn neu berson ifanc a bod yn rhan o'r gwaith. Ar gyfer y merched hynny a oedd wedi cael eu herlyn, roedd yr YOS yn sicrhau bod rhaglenni unigol yn eu lle i fynd i'r afael â throseddu a chaniatáu i'r merched ddatblygu perthnasau llawn ffydd gyda staff ar eu cyflymder eu hunain. O ganlyniad, roedd y staff yn gallu'u cyflwyno i ffyrdd newydd o feddwl a datrys problemau mewn modd naturiol a heb fod yn wrthdrawiadol. Roedd y merched hefyd yn gwybod y byddai'r gefnogaeth a'r berthynas yn parhau hyd yn oed pan roedd y gorchymyn wedi dod i ben. Roedd rhai o'r merched y siaradom ag yn cydnabod bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth, roeddent yn gwybod bod y staff yn ymrwymedig iddynt am gyhyd ag oedd angen. Roedd y canlyniadau yn dda iawn. Roedd gostyngiad o 84% wedi bod yn nifer y merched sy'n dod i mewn am y tro cyntaf ers 2009. maen nhw hefyd wedi cyflawni gostyngiad yn y troseddu ac aildroseddu treisgar. Doedd dim merched wedi cael eu dedfrydu i'r ddalfa ers 2010.

- 6.9 Oherwydd ymdrechion staff i ymrwymo â merched, fe welsom gydymffurfiaeth dda gyda gorchymynion lles mewn 70% o achosion. Ble nad oedd y merched wedi cydymffurfio, gan amlaf roedd hyn oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r rheswm dros beidio â chydymffurfio, gan gynnwys adnabod a oedd y ferch yn teimlo'r ddiogel yn y YOT.



- 6.10 Yn gyffredinol, roedd tri chwarter o achosion yn dangos bod camau wedi cael eu cymryd a oedd wedi helpu diogelu ac amddiffyn unigolion. Dangosodd ddadansoddiad o'r data fesul YOT unigol bod sefyllfaoedd ym mhob YOT ond un ble nad oedd camau priodol wedi cael eu cymryd.
- 6.11 Roedd nifer o ferched angen cefnogaeth ar ôl i'r cytundeb ffurfiol gyda'r YOT ddod i ben. Roedd rhai o'r YOTs wedi parhau i weithio gyda'r merched hyn ar sail wirfoddol ond roedd angen am strategaeth ymadael glir ym mhob achos. Heb gefnogaeth strategol roedd yn anodd iawn cynllunio a chael cefnogaeth effeithiol ar ddiwedd y gorchymyn. Ble mae merched yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan YOTs ar ôl y gorchymyn, mae'n hanfodol nad yw hyn yn gweithredu fel rhwystr i ddarpariaeth cefnogaeth prif ffrwd a bod asiantaethau partner yn glir am natur a therfynau cyswllt o'r fath.

#### Esiampl Arfer Da: Ymatal rhag troseddu

Roedd Karen wedi rhoi genedigaeth i ferch fach ac yn fuan ar ôl hynny, bu tad y babi farw. Roedd Karen yn trafferthu i ymdopi gyda hyn ac roedd yn effeithio ar ei pherthynas gyda'r babi. Yna fe gychwynnodd hi berthynas gyda bachgen arall, roedd yn defnyddio llawer o gyffuriau a dechreuodd Karen ddefnyddio cyffuriau. Roedd y berthynas yn dreisgar ac er mwyn diogelu'i babi fe benderfynodd ei rhoi dan ofal. Fe waethygodd y berthynas gyda'i phartner, fe gynyddodd y trais ac fe ddechreuodd hi ymladd yn ôl. Fe ymosododd hi ar heddwac ac roedd ganddi gyffuriau. Nid oedd hi'n gallu cael mynediad at ei babi ac fe geisiodd Karen ladd ei hun.

Fe ddaeth hi i'r YOS, yn swil ac yn dawedog, ac yn anghyfforddus mewn grwpiau. Dros gyfnod o flwyddyn, mae Karen wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi cynyddu'u hyder, wedi cwblhau rhannau o Wobr Dug Caeredin, ac mae hi'n teimlo bod ei bywyd yn fwy sefydlog. Mae hi wedi derbyn cefnogaeth i ddod o hyd i lety ac mae hi wedi stopio defnyddio cyffuriau. Mae hi nawr yn cael cyswllt â'i babi. Nid yw hi wedi aildroseddu.

Sylweddolodd Karen bod cael amrywiaeth o weithgareddau yn bwysig oherwydd roedd yn rhoi rhywbeth iddi feddwl am ac yn ei stopio rhag mynd dros ei chamgymeriadau a gofidiau blaenorol; roedd hi'n mwynhau heriau newydd a chyflawni amcanion. Roedd cefnogaeth barhaus y staff trwy ymwneud gwirfoddol yn ffactor allweddol gyda helpu Karen chyflawni'i hamcanion hir dymor. Bwysicaf oll roedd hi wedi cael amser i newid oherwydd yr ymwneud gwirfoddol ac roedd hi'n teimlo'n ddiogel.

## Casgliad

Ar lefel strategol golyga'r ffaith nad yw canlyniadau i ferched yn cael eu monitro na'u dadansoddi mewn modd soffistigedig a chynhwysfawr bod darparwyr gwasanaethau ddim bob tro'n gwybod beth sy'n gweithio ar gyfer y grŵp hwn, a ddim yn gallu gwybod a yw merched yn gwneud yn well neu'n waeth na bechgyn. Ar lefel weithredol, nid yw'r mesurau eang cyfredol (megis dychwelyd at addysg) yn cymryd sylw o'r newidiadau bach cynnil ond angenrheidiol y mae angen i'r merched wneud.

Mae rhai rhesymau am optimistiaeth sy'n dynodi bod staff y YOT yn cael effaith ar feddwl ac ymddygiad merched, hyd yn oed os nad ydynt yn glir ynghylch sut i gyflawni hyn bob tro. Yr ochr arall o hyn yw'r canfyddiadau siomedig mewn perthynas â merched sy'n Derbyng Gofal ac sydd hefyd yn destun goruchwyliaeth gan y YOT.

O ystyried natur y problemau mae nifer o'r merched sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn eu hwynebu, mae angen meddwl yn ofalus ynghylch sut mae'r cymorth a chefnogaeth yn parhau i gael eu darparu unwaith i'w cyswllt gyda YOT ddod i ben. Os ni thelir sylw i hyn, mae peryg y bydd nifer yn dychwelyd i droseddu.

## Atodiad 1: Rhestr Termiau

Asset	Dull asesu strwythuredig yn seiliedig ar ymchwil ac a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn edrych ar drosedd y plentyn neu berson ifanc, amgylchiadau personol, agweddau neu gredoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad tramgwyddus
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac ymddygiad arbenigol i blant a phobl ifanc hyd at o leiaf 16 mlwydd oed
CSSIW	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
DTO	Gorchymyn cadw a hyfforddi: dedfryd o garchar i'r ifanc
ETE	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysg unigolyn, ac i gynyddu'u siawns o gael swydd
Derbyn Gofal (Plentyn)	Term a ddefnyddir i adnabod plentyn neu berson ifanc sydd wedi derbyn gofal a lles gan awdurdod lleol. Gellir cyfeirio'r statws hwn gan lys neu drwy drefniad gwirfoddol gyda'r rhieni/gofalwyr neu blentyn neu berson ifanc unigol. Caiff hawliau a chyfrifoldebau gwahanol eu pennu gan y gyfraith yn dibynnu ar y statws 'derbyn gofal'
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: ble mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, y gwasanaeth carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwy'r sy'n peri risg o niwed i eraill
Risg o niwed i eraill	Dyma'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio gwaith i amddiffyn y cyhoedd, yn bennaf gan ddefnyddio ymyriadau ataliol, i leihau cyfle unigolyn i ymddwyn mewn modd sy'n peri risg o niwed i eraill
Diogelu	Y gallu i ddangos bod pob cam rhesymol wedi cael eu cymryd i leihau'r risg o blentyn neu berson ifanc rhag dod i niwed
SCH	Cartref Diogel i Blant: Mae gan gartrefi diogel y gyfradd uchaf o staff i blant, ac yn gyffredinol maen nhw'n llai na sefydliadau gwarchodol eraill. Maen nhw'n darparu llety i blant iau (y sawl rhwng 12 a 14 mlwydd oed), merched hyd at 16 mlwydd oed, a bechgyn 15 i 16 mlwydd oed y'u hasesir fel bod angen gofal ychwanegol. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol ar <a href="http://www.securechildrenshomes.org.uk/">http://www.securechildrenshomes.org.uk/</a>
STC	Canolfan Hyfforddiant Diogel: Canolfannau pwrpasol yw canolfannau hyfforddiant diogel ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed. Maen nhw'n cael eu rhedeg gan weithredwyr preifat o dan gytundebau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, sy'n amlinellu sut dylid rhedeg y canolfannau.
YOI	Sefydliad Troseddwy'r Ifanc: sefydliad gwarchodol wedi'i bwriadu ar gyfer troseddwy'r rhwng 18 a 20 mlwydd oed, er maen nhw hefyd yn gallu darparu ar gyfer troseddwy'r ifancach rhwng 15 a 17 mlwydd oed.
YJB	Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr
YOT/YOS/YJS	Tim Troseddau Ieuencid/Gwasanaeth Troseddau Ieuencid/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid

## Atodiad 2: Rôl yr arolygiaethau a chodau ymarfer

### Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Rôl a Chod Ymarfer Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar ein gwefan:

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation)

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation  
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre  
1 Bridge Street West  
Manceinion, M3 3FX*

### Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Rôl a Chod Ymarfer Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar ein gwefan:

[www.cssiw.org.uk/](http://www.cssiw.org.uk/)

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*Prif Arolygwr Gofal a Gwasanaethau Cymru ei Mawrhydi  
Swyddfa Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful, CF48 1UZ*

### Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Rôl a Chod Ymarfer Y Comisiwn Ansawdd Gofal ar eu gwefan:

<http://www.cqc.org.uk/>

Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*CQC National Customer Service Centre  
Citygate  
Gallowgate  
Newcastle upon Tyne  
NE1 4PA  
Caerdydd CF24 5JW*

### Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Rôl a Chod Ymarfer Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar eu gwefan:

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/about-us/](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/about-us/)

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Constabulary  
6th Floor, Globe House, 89 Eccleston Square  
Llundain, SW1V 1PN*

## **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Rôl a Chod Ymarfer Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar eu gwefan:

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-hmi-prison](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-hmi-prison)

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Prisons  
Victory House, 6th Floor, 30-34 Kingsway  
Llundain, WC2B 6EX*

## **Ofsted**

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Rôl a Chod Ymarfer Ofsted ar eu gwefan:

<http://www.ofsted.gov.uk/>

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Standards in Education, Children's Services and Skills  
Aviation House, 125 Kingsway  
Llundain, WC2B 6SE*

## Atodiad 3: Cyfeiriadau

### Adroddiadau

1. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2010) Cyfiawnder Troseddol *Cynllun Busnes Arolygiad ar y Cyd 2012-14*, Llundain
2. Yr Adran Addysg (2010) Deddf Plant 1989 Canllawiau a Rheoliadau: Cyfrifoldebau awdurdod lleol tuag at blant yn y ddalfa a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol, Llundain
3. Y Comisiwn Ansawdd Gofal (2010) Message in a bottle: A joint inspection of youth alcohol misuse and offending ISBN: 978-1-84099-387-5 Llundain
4. Cyngor Rotherham (2014) Ymchwiliad Annibynnol Jay ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rotherham 1997-2013. Rotherham
5. Berelowitz, S. et al (2013). "If only someone had listened" Adroddiad Terfynol Ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Plant ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn gangiau a grwpiau. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Llundain
6. Y Swyddfa Gartref (2007) Adroddiad Cortson. ISBN 978 1 84726 177 9 Llundain
7. Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2010) Equal but Different An inspection of the use of alternatives to custody for women offenders ISBN 978-1-84099-485-8 Llundain
8. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014), Trawsnewid Cyfiawnder Ieuenctid, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain
9. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014). Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2012/13 Cymru a Lloegr. Bwletin Ystadegau Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Llundain
10. Y Cenhedloedd Unedig (1991) Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn
11. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2013) Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Llundain
12. Cyfarwyddyd Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar Asset, Llundain
13. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) Adran 104, Deddf Dedfrydu Cymorth Cyfreithiol a Chosbi Troseddwyr, Llundain
14. Swyddfa'r Comisiynydd Plant (2013) "Sex without consent, I suppose that's is rape." Sut mae pobl ifanc yn Lloegr yn deall cydsyniad rhywiol, Llundain
15. Swyddfa'r Comisiynydd Plant (2013) "Its wrong but you get used to it." Llundain
16. Prifysgol Abertawe (2013) Camddefnyddio Sylweddau gan Bobl Ifanc yn Abertawe, Abertawe
17. Rhaglen Atal Troseddau Ieuenctid Comisiwn Cyfiawnder Troseddol Oregon (2002) Sut i roi canllawiau ar waith yn Oregon i gael rhaglenni sy'n effeithiol yn ymateb i ofynion merched
18. Adran Trosedd Ieuenctid Nacro (2008) Adolygiad Llenyddiaeth: Adolygiad o'r ddarpariaeth i ferched yn y ddalfa i leihau aildroseddu. Llundain

19. Nacro (2008) Ymateb i ferched yn y system cyfiawnder ieuenctid, Llundain
20. Jeanette Williams (2009) Real "Bad" Girls: Astudiaeth o darddiad a natur troseddu gan ferched a menywod ifanc sydd ynghlwm â Thim Troseddau Ifanc y Sir ac ymatebion systematig iddynt, Swydd Bedford
21. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2009) Merched a Throseddu – patrymau, canfyddiadau ac ymyriadau, Llundain
22. Cymdeithas Gristnogol Menywod Ifanc (2010) Menywod ifanc ac alcohol. Swistir
23. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2012) Datblygu Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr, Cynlluniau hyd at 2015, Llundain.

Gwefannau a cofnodion o ddiddordeb ar y we:

9. <http://www.niaaa.nih.gov/alcohol-health/special-populations-co-occurring-disorders/women>